ECO'R WYDDFA

Rhif 186 NADOLIG 1992 / IONAWR 1993 Pris 25c

O GYMRU I'R GAMBIA

Er ei fod wedi ymddeol ers rhai blynyddoedd bellach, aeth Selwyn Griffith yn ôl i ysgol rhyw dair wythnos yn ôl. Ond nid un o ysgolion bro'r Eco oedd hi. Cewch yr hanes i gyd yn 'O Siambar Selwyn' ar dudalen 12.

ARDDANGOSFA GELF

Roedd wythnos ola'r tymor yn wythnos arbennig iawn i blant Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Nid yn unig yr oedd digwyddiadau arferol diwedd tymor y Nadolig ar droed, ond yr oedd hefyd arddangosfa wedi ei threfnu o waith celf y plant.

Cynhaliwyd yr arddangosfa yn Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis rhwng Rhagfyr 11 a Rhagfyr 18, a chafodd teuluoedd a chyfeillion wahoddiad i ymweld â'r Arddangosfa yn rhad ac am ddim. Gwaith celf ar thema'r Nadolig a ddangoswyd, ac yr oedd y darluniau, modelau a *collages* yn werth eu gweld. Roedd hyd yn oed plant yr Ysgol Feithrin wedi cael eu cornel i arddangos eu gwaith. Roedd prifathrawes Ysgol Dolbadarn wrth ei bodd bod y plant yn cael cyfle i arddangos eu gwaith mewn oriel a fu er enghraifft yn ystod y flwyddyn hon yn arddangos darluniau'r arlunydd byd enwog Monet. Go brin y gwnaiff yr un o'r plant anghofio'r ffaith i'w gwaith fod yn yr Amgueddfa, a does on gobeithio y bydd rhai ohonynt yn cael eu calonnogi a'u symbylu i barhau i ymddiddori yn y celfyddydau cain. Gobeithio hefyd y bydd arbrawf yr Amgueddfa o gynnal y fath Arddangosfa yn fodd i feithrin ynom ni, bobl Llanberis, yr arfer o ymweld â'r Amgueddfa i weld arddangosfeydd eraill a ddaw yno yn eu tro. Llongyfarchwn y plant a'r Amgueddfa ar y fenter.

MEDDYGFA NEWYDD



Mae Meddygfa newydd sbon wedi agor mewn adeilad modern, hardd yn Llanberis. Yn ogystal â stafelloedd i'r pedwar doctor mae cyfleusterau arbennig i'r Nyrsus Ardal a'r Ymwelwyr Iechyd. Gellir cael ffisig yn y feddygfa ac y mae hyd yn oed ystafell ar gyfer llawdriniaeth syml. Ceir manylion pellach am y datblygiad cyffrous hwn yn rhifyn nesaf Eco'r Wyddfa.

SWYDDI NEWYDD?

Dechreuwyd codi unedau diwydiannol newydd ar dir Y Glyn yn Llanberis yn ddiweddar. Mae cragen yr adeilad eisoes ar ei thraed. Cynllun Cyngor Arfon gyda chymorth y Swyddfa Gymreig yw i ddarparu pum uned ddiwydiannol ynghyd â swyddfeydd. Wedi llwyddo i ddenu cwmni Euro-DPC i Glynrhonwy gobeithir y gellir denu cwmniau eraill i'r ardal, yn ogystal â darparu parc diwydiannol a fedrai estyn gwasanaeth i fusnesau sydd eisoes yn yr ardal. Gobeithio bydd y cynlluniau'n llwyddo ac y gwelir yn fuan lawer o swyddi newydd ar gael i bobl leol yn Y Glyn.

Nadolig Llawen i'n holl ddarllenwyr

ECO'R WYDDFA

RHIF 186
NADOLIG 1992/IONAWR 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (670115)
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWYR
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (674669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Ty Hen, Waunfawr (650599)
TREFNYDD GWERTHIANT
Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (675510)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (0248 670726)
BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (673536)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwynedd ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (676733)
NANT PERIS: Mrs Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 28
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN
IONAWR 18
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
CHWEFROR	IONAWR 28	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts	650570
MAWRTH	MAWRTH 4	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	EBRILL 1	CAEATHRO	Mrs Beryl Roberts	673536
MAI	EBRILL 29	DEINIOLEN	Mr W. O. Williams	871259
MEHEFIN	MAI 27	BRYNREFAIL	Miss Lowri P. Roberts	870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 1	Mr Geraint Elis	(0248) 670726	
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 9	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 28	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
RHAGFYR	RHAGFYR 2	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

Llythyrau

Diolch

Y Wern
Caeathro

Annwyl Olygydd,

Carwn, drwy gyfrwng Eco'r Wyddfa, ddiolch o galon i'r gŵr ifanc o Lanberis a wthiodd gar fy ngwraig o'r dŵr a gronnodd yn Ffordd Crawia rhwng Llanrug a Bethel, ddydd Mercher, Rhagfyr 2. Gwlychodd ei esgidiau a'i ddillad wrth wneud a chiliodd yn ôl i Lanberis i'w newid cyn iddi gael cyfle i holi ei enw a'i gyfeiriad, ond bu ei weithred anhunanol, a chymorth gweision Cyngor Arfon wedyn, yn fodd i'n hatgoffa, mewn oes ddifraw, na ddarfu am garedigrwydd wedi'r cyfan. Diolch am hynny.

Yn ddiffuant,
T. ARFON WILLIAMS

'YMLAEN Â'R GÂN'

Casét Newydd gan barti LLEISIAU'R GWEUNYDD

Ydych chi'n chwilio am anrheg Nadolig arbennig? Wel, mae parti merched Lleisiau'r Gweunydd yn rhyddhau casét newydd, 'Ymlaen â'r Gân' ar label Sain, ar gyfer yr Ŵyl. Mae'r genod, dan arweiniad Einir Wyn Owen, Rhiwlas, wedi tynnu 'nghyd amrywiaeth o garolau a chaneuon eraill hen a newydd. Bydd y casetiau ar werth yn eich siopau recordiau lleol cyn y Nadolig neu gan aelodau'r parti, felly brysiwch i brynu copi. Os am ragor o wybodaeth ffoniwch Einir Wyn ar Bangor 352890 neu Mary Elliott ar Llanberis 872438.

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
C'fon 674520
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS 870149
★ Bwyd da ★ Cwrw da ★ Cwmni da

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

AR WERTH
NINTENDO a 3 GÊM
Am fwy o fanylion
**(0286) 677149

THE SEIONT MANOR HOTEL
LLANRUG
Ffôn: 673366

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y gwesty

'Neges y Nadolig'

gan Deio

Rhag ofn imi anghofio — Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr hyn o golofn. Ystrydeb bellach yw nodi fod amser fel petae'n cyflymu fel mae rhywun yn mynd yn hŷn a blwyddyn ond fel mis i'r hyn oedd pan oeddem yn ifanc. Boed hynny fel y bo — yr un yw amser p'ryd bynnag y mae.

Mae sôn am y Nadolig yn arwain rhywun i feddwl am yr enedigaeth wyrthiol, am Gristnogaeth ac am grefyddyn gyffredinol. Dywedwch — a ydych chi'n mynychu capel neu eglwys yn gyson reolaidd bob Sul? Yn ôl pob tebyg, dim ond rhyw 10 i 15% o'r boblogaeth sy'n mynychu unrhyw fath o addoldy. Tybed felly a yw defnyddioldeb ein capeli a'n heglwysi wedi hen basio'i dyddiad? Ai gwyrth fwyaf y flwyddyn newydd fyddai i ymddiriedolwyr, swyddogion a charedigion pob addoldy ym mhob cwmwd yn nalgylch Eco'r Wyddfa benderfynu gwario unrhyw gyfalaf sydd ganddynt wrth gefn i chwalu'r adeilad? Beth? meddech. Ie, chwalu pob un ohonynt gan werthu'r rhan fwyaf o'r safleoedd lle maent yn sefyll i ddatblygwyr.

O wneud hynny, naill ai codi adeilad aml-bwrpas newydd mewn man canolog (a dyna chi nyth cacwn arall darganfod mangre'r lle canolog) neu addasu *un* yn unig o'r addoldai presennol. Prynu neu logi bws fach neu ddwy gyda'r gweddill o'r arian a rhedeg y bwsiau i'r oedfaon ar y Sul neu ar noson waith hyd yn oed. Meddyliwch y miloedd ar filoedd o arian sy'n cael ei wario'n flynyddol ar gadw'r adeiladau mewn cyflwr gweddol raenus, cymen a chynnes heb sôn am wariant cudd megis trethi ac yswiriant ag ati. Dyna arbed wedyn ar gostau llenwi'r pulpudau! Weithiau credaf ei bod yn haws cyfathrebu gyda nifer dda o bobl nag yw gyda llond dwrn.

Buasai'r canu'n llawer iawn gwell a hwyrach y ceid yr effaith o haearn yn hogi haearn gyda'r cynulleidfaoedd yn cynyddu o Sul i Sul. Breuddwyd ffŵl meddai rhai, 'Sgersi bilîf', meddaf innau. Mae'n capelyddiaeth wedi mynd yn rhemp a'n crefydd yn brysur fynd yn ddibwys o'i gymharu. Wir, ni allaf ond teimlo mai dyma ddylai neges y Nadolig hwn fod — cyfle newydd megis y baban newydd i ddangos o'r newydd fod ein crefydd yn fwy pwysig o lawer na charreg ar ben carreg neu drefn yn erbyn trefn.

Beth fydd neges y Nadolig i chwi tybed? Rhoddwch bin ar bapur a nodwch eich dehongliad — 'rwy'n siwr y buasai'r naill neu'r llall o'r golygyddion wrth eu boddau gyda'ch ymateb. Ond tan y flwyddyn newydd, byddwch dda un ac oll.

DRAENOG

Cydymdeimlad â'r gŵr o Lanberis a fu'n eistedd mor amyneddgar yn y Clinic yn Ffordd Capel Coch i gael apwyntiad â'i ddoctor; nes sylweddoli fod y job lot wedi symud i'r feddygfan newydd yn Cae Hetar.

CANOLFAN CYMDEITHASOL LLANRUG

Yn eisiau:

PENSEIRI/ CYNLLUNWYR ADEILADU

ar gyfer y Prosiect Cymunedol uchod

Am fwy o wybodaeth a thrafodaeth anffurfiol cysyllter â Chlerc y Cyngor:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon Llanrug. Ffôn: (0286) 674669

Gwireddu Breuddwyd

Ydych chi'n torri'ch bol i 'sgwennu drama? Efallai eich bod eisoes wedi ysgrifennu drama ond chafodd hi erioed siawns i weld golau dydd. Wel dyma gyfle i chi wireddu'ch breuddwyd.

Y mae Cymdeithas Ddrama Cymru yn cyhoeddi manylion eu cystadleuaeth ysgrifennu drama un act.

Mae'r ras ar gychwyn i ddod o hyd i ddrama sy'n haeddu llwyfaniad yn **Dramaffest '93**, fydd yn cael ei gynnal yn Theatr y Sherman, Caerdydd, yn ystod Hydref 1993.

Thema y gystadleuaeth flynyddol hon eleni fydd **'Diwyg Ffug'**. Teitl pryfoclyd i herio'r dychymyg ac i ogleisio'r awen yn y mwyaf amharod ohonoch.

Yn ogystal a'r wobr gyntaf o £100 fe fydd gwobr ychwanegol i'r awdur mwyaf addawol dan 25.

Y mae Cymdeithas Ddrama Cymru, sydd bellach yn cynnal llyfrgell fenthyg arbenigol fwya'r byd, yn annog ac yn hybu cwmnïau amatur a chymunedol i lwyfannu dramâu newydd fel rhan o'r Cynllun Ysgrifennu newydd a grewyd ganddynt.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth fydd **Ionawr 31, 1993.** Am fanylion pellach cysylltwch â **Chymdeithas Ddrama Cymru. Ffôn: (0222) 452200.**

antur padarn



DIWRNOD AGORED

yn AMGUEDDFA'R GOGLEDD LLANBERIS

Dydd Mercher, Ionawr 20fed, 1993 (ar agor drwy'r dydd o 10 a.m. hyd 6.30 p.m.)

MYNEDIAD AM DDIM

CYFLE i fusnesau'r ardal, ac i'r rhai sydd â diddordeb mewn cychwyn busnes eu hunain gael cyfarfod a gweld arddangosfeydd gan: AWDURDOD DATBLYGU CYMRU — TARGED — ADRAN DATBLYGU ECONOMAIDD CYNGOR SIR GWYNEDD — CYNGOR ARFON — TES — BANC Y MIDLAND, ac eraill.

CYFLE i'r di-waith yn yr ardal gael mwy o wybodaeth am y gwahanol gynlluniau addysg a hyfforddiant sydd ar gael.

CYFLE i bobl ifanc yr ardal gael gwybodaeth a chyngor ynglŷn â chyfleoedd gyrfa a hyfforddiant yn ôl eu hangen.

Os am fwy o fanylion, neu sgwrs cyn y diwrnod cysylltwch â ROBIN JONES, Swyddog Datblygu Antur Padarn ar (0248) 670140

Y mae ardal ANTUR PADARN yn cynnwys:
BETHEL, BRYNREFAIL, CAEATHRO, CEUNANT, CWM-Y-GLO, DEINIOLEN, DINORWIG, LLANBERIS, LLANRUG, NANT PERIS, PENISARWAUN, RHIWLAS, WAUNFAWR.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol a wnaeth yn arbennig o ddan ym Mhencampwriaeth Rhedeg Trawsgwlad Gwynedd ym Mangor ar Tachwedd 22 — Bechgyn dan 11: 1, Gareth Jones; 4, Alwyn Jones. Genethod dan 11! 2, Rachael Jones; 4, Elin Harding; 6, Sarah Jones. Bechgyn dan 15: 2, Alun Vaughan.

Cymdeithas Eglwysi St. Peris a St. Padarn: O dan nawdd y Gymdeithas cynhaliwyd drama 'Nadolig Ti a Mi' yn Eglwys St. Padarn ar nos lau, Rhagfyr 3ydd. Ysgrifennwyd a chynhyrchwyd y ddrama gan Mrs Anne Parry-Jones, llywydd y Gymdeithas. Cymerwyd rhan gan gyfyrwyr Coleg Technegol Bangor gyda Mr Gareth Jones yn cyfeilio. Mwynhawyd y noson yn fawr gan y gynulleidfa luosog — rhai yn amlwg wedi dod o gryn bellter. Yn ystod y cynhyrchiad derbyniwyd anrhegion Nadolig gan blant Ysgolion Sul y pentref gan y Rheithor, Parchg P. Pritchard. Bydd yr anrhegion a'r elw yn cael eu hanfon i Apêl Rwmania — yn ateb i apêl bersonol gan un o gynfyfyrwyr Mrs Anne Parry-Jones. Mae Eirian Thomas, o'r Bala, erbyn hyn yn gweithio mewn meithrinfa yn Rwmania, ac yn ôl ei thystiolaeth mae'r angen a'r tlodi yn fawr iawn yn y wlad honno. Y gwestwragedd oedd Mrs Dilys Phillips a Mrs Jean Roberts. Traddodwyd y Fendith gan y Rheithor.

Ysgol Feithrin: Nos Wener, 4 Rhagfyr, cynhaliwyd Bingo yng Nghlwg y Lleng Brydeinig a gwnaed elw o £360.

Enillwyr y raffl oedd — Teisen Nadolig: Jean Roberts, Castle View; Jumper: June Hare; Tedi: Carol Lyn; Hamper: Meirwen Jones; Ffrwythau: Percy, Plas Coch; Gwin: Wilbert, Brynrefail. Dymuna Catherine Ll. Williams a Jan Vaughan ddiolch i'r Clwb a'r mamau am drefnu y noson ac i'r ardalwyr am eu cefnogaeth. Diolch i Raymond, Post, am drefnu'r disgo ac i'r hogia am werthu'r tocynnau. Diolch i Derek am wneud ocsiwn o'r eitemau oedd ar ôl. Cafwyd noson ardderchog gyda phawb yn mwynhau eu hunain yn yr hwyl o ddawnsio a chanu.

Ar Rhagfyr 16 bydd y plant yn cael eu parti Nadolig gyda Siôn Corn yn ymweld â hwy.

Dymuna'r mamau ddiolch i Anti Catherine ac Anti Jan am eu gwaith gyda'r plant; hefyd i Mr D. Jones am edrych ar ôl Mabon yr Hamster.

Cylch Ti a Fi: Cynhaliwyd parti Nadolig y Cylch yn festri Capel Coch ar Ragfyr 6. Mae'r Cylch yn cyfarfod yno rhwng 12.30 p.m. a 2.30 p.m. bob pnawn dydd Mawrth yn ystod tymor yr ysgol. Mae yna groeso cynnes yn cael ei estyn i blant bach dan oed Ysgol Feithrin i'r Cylch Ti a Fi. Yr unig amod yw eu bod nhw'n dod ag oedolyn efo nhw!

Capel Coch

Cyfarfod y Chwiorydd: Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y chwiorydd ar Ragfyr 3ydd. Roedd y gwasanaeth ar ffurf darlleniadau a charolau, a threfnwyd y baned a'r mins peis gan chwiorydd Capel Rehoboth.

Parti Nadolig: Cynhaliwyd parti Nadolig y plant yr Ysgol Sul a'r Cyfarfod Plant ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 15ed. Bydd y Cyfarfod Plant yn ail-ddechrau wedi gwyliau'r Nadolig ar Ionawr 5ed. Cafwyd tymor da o gyfarfodydd ers mis Medi ac edrychwn ymlaen at weld y plant eto yn y tymor newydd.

Yr Ysgol Sul: Bydd plant yr Ysgol Sul yn cynnal eu drama Nadolig am 2 o'r gloch, ddydd Sul, Rhagfyr 20fed. Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau ar Ionawr 10fed wedi gwyliau'r Nadolig.

Y Gymdeithas Undebol: Cynhaliwyd gwasanaeth carolau y Gymdeithas ar Ragfyr 8fed yng nghwmni Lleisiau Lliwedd, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a'u cyfeilydd Gareth Jones. Mwynhaodd pawb ddigonedd o fins peis ar ddiwedd y cyfarfod.

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/12/92: £35: Iola Owen, Stryd yr Wyddfa (130); £25: D. Roberts, 50 Maes Padarn (68); £15: C. Roberts, 12 Llainwen Isaf (18); £10: Beryl Lewis, 3 Rhes Efrog (1247; £5: Ann Jones, 34 Stryd Newton (160). Pelen eira — £50: John Williams, 6 Rallt Goch (95); £50: Jane Roberts, Rallt Isaf (78).

Noson Lawen: Cafwyd Noson Lawen lwyddiannus iawn yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Sadwrn, 5 Rhagfyr, yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris a chafwyd eitemau unigol ynghyd ag ambell i sgets gan aelodau'r côr. Arweiniwyd y noson gan Cyril Jones. Trefnwyd y raffl gan Roy Griffiths a'r enillwyr oedd: 1, Douglas Ellis; 2, 870125; 3, 871598; 4, 870413; 5, Ifor Jones; 6, Richard, Is Lyn; 7, 870861; 8, Nancy, Deiniolen; 9, Ieuan Ellis; 10, 872373; 11, 871598; 12, Mrs Ted Anwyl; 13; Huw Roberts; 14, 871267; 15, 670006.

Bydd y côr yn diddori'r henoed yng nghartrefi Maesincla, Caernarfon, a Bron Eryri, Llanberis, cyn y Nadolig.

Diolchiadau:

Dymuna Arfonia Evans, Derlwyn, Stryd Fawr, Llanberis, ddiollch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a rhoddion tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i'r Mg O. P. Jones, Meddygfa Llanberis, ac i feddygon a staff Ward Prysor, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dymuna Shane Price, Padarn View, ddiolch yn fawr i'w deulu a'i ffrindiau am lu o gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ddathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed ar Dachwedd 27ain.

Rhai o aelodau cyfarfod Chwiorydd Capel Coch a Rhehoboth ar ddiwedd eu gwasanaeth Nadolig.

Atgofion Pen-blwydd
Rhagfyr 22ain
ANNIE BLODWEN JONES

Mis Rhagfyr unwaith eto,
Dy ddydd arbennig di,
Sy'n dwyn atgofion melys
Pan oeddyt gyda ni.
Diolchwn am hen amser fu,
'Pen Llanw' cariad roddaist ti.

W.H.

Wil, Heddwyn, Lynwen, Idwal, Llinos a Carwyn (gyda diolch a gwerthfawrogiad i gyfaill y teulu, William Hughes, Bangor, am y deyrnged uchod ac hefyd am ei goffad fis Gorffennaf 1992).

Llwyddiant Eisteddfodol: Llongyfarchiadau i Rhiannon Pritchard, Madryn, Stryd Newton, ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth arlunio agored yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ym mis Tachwedd. Mae Rhiannon yn aelod o Glwb Arlunio Bethesda.

Llongyfarchwn hefyd Mari Wyn, 6 Rhes Fictoria, ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd dan 12 oed yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Yr Urdd: Cynhaliod y gangen leol noson Gwisg Ffansi i gloi gweithgaredd y tymor, nos Wener, Rhagfyr 11. Roedd y plant yn mwynhau eu hunain yn fawr, a rhoddwyd anrheg Nadolig iddynt.

Ar Ragfyr 16 cafodd y plant eu Parti Nadolig gyda Siôn Corn yn ymweld â hwy.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i holl ffrindiau a
chefnogwyr
Côr Meibion Dyffryn Peris

Dyma'r adloniant a gynhelir yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis (a drefnwyd gan y Côr) yn ystod y misoedd nesaf:

Nos Sadwrn, Ionawr 23, 1993
LLEISIAU'R FROGWY
(Arweinydd: Gareth Glyn)

Nos Sadwrn, Chwefror 20
JOHN ac ALUN
(Canu Gwlad)

Nos Sadwrn, Mawrth 27
DAFYDD IWAN

Nos Sadwrn, Ebrill 17
VERNON a GWYNFOR

ARCHEBWCH EICH TOCYNNAU YN FUAN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus Gwener/Sadwrn 25, 26, Rhagfyr na dydd Gwener 1 Ionawr
Gwasanaeth Sul ar 27 a 28 Rhagfyr

Ysgol Dolbadarn: Ar ddiwedd apêl Plant Mewn Angen y BBC ym mis Tachwedd Casglodd plant yr Ysgol £215. Rhedodd pedwar o blant o amgylch Llyn Padarn, a buont yn dweud yr hanes ar un o raglenni teledu'r noson. Bu dosbarth Mrs Owen yn brysur yn gwerthu tegannau a diod a bisgedi yn ystod yr amser chwarae. A bu rhai o'r genethod mewn gwisg ffansi yn casglu arian yn y pentref.

Bu dosbarth Mr ap Elwyn yng Nghastell Caernarfon fel rhan o'u gwaith dysgu am fywyd yn oes adeiladu'r castell.

Cynhaliwyd Ffair Lyfrau Iwyddiannus ar Dachwedd 26ain, a gwerthwyd gwerth £1,200 o lyfrau.

Cynhaliwyd disgo Nadolig i'r plant nos Fercher, Rhagfyr 9fed yn neuadd yr Ysgol.

Enillodd tîm pêl-droed 5-bob-ochr yr Ysgol Darian mewn cystadleuaeth yng Nghaernarfon.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol yn festri Capel Coch ar Ragfyr 14eg, a gwnaed casgliad at waith Barnados.

Aeth y plant i weld y pantomeim 'Blodeuwedd' yn Theatr Gwynedd ar Ragfyr 16eg.

Clywyd lleisiau rhai o blant yr Ysgol ar y rhaglen 'Bwrw Golwg' ar Radio Cymru y Sul o'r blaen yn adolygu llyfrau Cristnogol newydd i blant.

Dymunwn fel staff a phlant Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

Y rhedwyr, gyda Mr ap Elwyn, ar gychwyn o amgylch y llyn.

Prysurdeb y Caffi yn nosbarth Mrs Owen ar ddydd Plant Mewn Angen.

'Un funud fach . . .'
ENW ADDAS

Tuedd i glywed pytiau o raglenni radio wrth yrru'r car y bydda i. Y dydd o'r blaen clywais ran o raglen yn trafod enwau pobol. Pa enwau sy fwyaf poblogaidd heddiw? Pa enwau sy'n ffasiynol am gyfnodau yn unig? Oes yna gysylltiad rhwng enw person a'i gymeriad? Ydi pobol yn fodlon ar eu henwau? Pwy sy'n casau yr enw a gafodd gan ei rieni? Dyna'r math o bethau a drafodwyd ar y rhaglen. Beth amdanoch chi? Ydych chi'n hoff o'r enw. Ydi'ch enw yn eich siwtio? Oes 'na enw fyddai'n fwy addas ar eich cyfer?

Rwy'n cofio canu'r emyn hwn lawer gwaith pan oeddwn yn blentyn:

Enw'r Iesu, enw mwyn,
Llawn o gysur, llawn o swyn;
Wêl y ddaear, wêl y nef,
Ddim mor dlws â'i enw Ef,
Llonni wna y galon drist,
Dim ond enwi Iesu Grist.

Ond pam bod enw'r Iesu yn fwyn ac yn dlws? Beth sy'n gwneud yr enw yn llawn o gysur ac yn llawn o swyn? Dau beth, sef sŵn yr enw ac ystyr yr enw.

Mae sŵn enw'r Iesu yn felys i bawb sy'n ei garu. Mae'r enw yn eu hatgoffa ar unwaith o'i gariad a'i ofal. Mae'r enw yn annwyl, yn union fel mae enwau teulu a ffrindiau yn annwyl i ni.

Ond yn fwy na dim, ystyr yr enw sy'n ei wneud yn llawn o gysur. Daeth angel at Joseff ryw noson. Soniodd wrtho am wyrth y Geni. Byddai Mair yn cael plentyn. A'i enw fyddai IESU. Ond pam 'IESU'? Oherwydd, meddai'r angel, fe fydd yn achub ei bobol oddi wrth eu pechodau. 'Achubwr' ydi ystyr yr enw 'IESU'. Byddai'r baban yn tyfu, a ryw ddydd byddai'n marw ar y groes yn lle ei bobol. A dyna ddigwyddodd. Fe gymrodd Ef y bai am ein holl fethiant ni i garu Duw yn llawn. Ac wrth wneud hynny mae wedi ein hachub rhag y gosb o gael ein gwrthod gan Dduw. Mae enw'r Iesu felly yn hollol addas ar ei gyfer. Mae'n dweud wrthym am ei waith mawr drosom.

Dowch i ni gredu ac ymfalchïo yn Ei enw y Nadolig hwn.

Nadolig llawen iawn a blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD

CLWB ERYRI

Ar nos Iau, 3ydd Rhagfyr y cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf o'r Clwb yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis. Cafwyd anerchiad o dan y teitl 'Lobscows o'r Traws' gan Mr J. Norman Davies, Bontnewydd, o dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail am y noson. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad gan Mr Cledwyn Williams, Llanrug. Atgoffir yr holl aelodau mai ar nos Wener, 8fed Ionawr 1993 y cynhelir y cyfarfod nesaf (ac ni fel a ddangosir yn y rhaglen) pryd y disgwylir Mr Evan T. Parry, Ceunant, i annerch o dan lywyddiaeth ysgrifennydd newydd y Clwb, Mr Iolo Huws Roberts, Waunfawr, am y noson.

Croeso cynnes i'r holl aelodau.

Cwmni TARIAN Cyf.
Yswiriant Car neu Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni roi pris i chi.
TARIAN
6 Stryd Bangor, Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i holl

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Gwener
10.00 – 3.30
I gysylltu tu allan i'r oriau hyn ffoniwch
Llanberis 870922
neu **Bangor 351427**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb

SIOP ESGIDIAU GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth
E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Lin a John

CHWILOTA

'ENWAU'

Yn dilyn y cais diweddar am wybodaeth ynglŷn â thyddyn o'r enw 'Bethlemouth' yn ardal Dinorwig, a'r awgrym mai gair o'r Apocryffa oedd; mae gen i ofn fy mod yn parhau yn y tywyllwch. Diolch i Mrs Evans, Llys Gwynt, Penisarwaun, am alwad ffôn yn nodi iddi archwilio'r Apocryffa yn fanwl, ond methu dod ar draws cyfeiriad at yr enw. Cefais lythyr hefyd gan Mrs N. V. Pritchard, Pen Dyffryn, Dinorwig, yn nodi cysylltiad â'r lle. Dyma sydd ganddi i'w ddweud:

'Roedd brawd fy nhaid yn byw yno, sef John Jones. Y teulu yma a newidiodd yr enw i Congl y Mynydd, sydd yn briodol iawn, gan ei fod wedi ei adeiladu wrth droed yr Elidir. Mae yn ymyl Capel y Methodistiaid, coed yr Allt Wen o'i flaen a rhan o'r ffordd drwy'r caeau i'r Fachwen. Nid oes gennyf syniad pwy roddodd yr enw Bethlemouth iddo. Gyda llaw, Bethlemwth fyddai fy nain yn ei alw.'

Felly, nid ar y *'beth'* na'r *'mouth'* yr oedd y pwyslais wrth ynganu'r enw, ond ar y sill olaf ond un — *'le'*. Beth-*le*-mwth ydi'r ynganiad cywir. Ond rwy'n dal yn y t'wllwch ynglŷn â tharddiad yr enw — os nad oes darllenwr yn rhywle all gynnig eglurhad?

Pwll Batus

Wrth archwilio hanes y Bedyddwyr yn yr ardal, deuthum ar draws y ffaith fod y Bedyddwyr cynnar yn cyfarfod yn ardal Llwyn Celyn (ochr yn ochr â'r Methodistiaid), Llanberis. Lowri Pyrs, gweddw John Wheldon a ail-briododd â Richard Hughes, *'gŵr o Amlwch, a bedyddiwr selog'*. Dywedir i Richard Hughes godi ysgoldy bychan yn yr Ysgubor, llwyn Celyn, gyda help William Bellis, Muriau, a John Williams, Bedward. Roedd hyn tua'r flwyddyn 1786. Yn y cyfnod hwn hefyd byddai gwasanaethau yn cael eu cynnal yn Glan y Bala ac yn Hafodty, Dinorwig. Roedd y bedyddio yn digwydd yn Afon Goch, islaw Llwyn Celyn, mewn lle a elwid ar lafar yn *Pwll Batus*.

Mae'n debyg i'r arferiad barhau yma nes i'r achos symud i Sardis, Dinorwig, yn 1820. Ni fu achos y Bedyddwyr yn Llanberis wedyn hyd 1869 pan agorwyd capel yno. Ond tybed a oedd yr enw Pwll Batus yn dal ar gof erbyn hynny? Oes rhywun o drigolion Llanberis yn gwybod ble'n union yn yr Afon Goch mae Pwll Batus?

Ac wrth sôn am enwau pyllau ar afonydd, beth am gasgliad o enwau ar greigiau, pyllau a llynoedd ar afonydd y fro? Mae gen i gasgliad eithaf o wahanol enwau am ran o afon Seiont, ond nid yw'n gyflawn. Beth amdani, chi bysgotwyr?

Anfonwch eich cyfraniadau i **Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 673515).**

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON

Ffôn: 676506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

GAIR GAN DELYTH

'Ag oerwynt Hydre'n gyrru
Y gawod ddail yn gâd ddu.'

Dyna'n union sy'n digwydd yma ym Mrwnei ar y funud, ond yr unig wahaniaeth yw nad yw'r gwynt yn oer o bell ffordd. 'Dwi'n edrych allan drwy'r ffenestr rŵan yn gwylio'r pentwr dail browngoch crin sy'n gorwedd yn garped tu allan i'r tŷ. Mae'r glaw yn pistillio i lawr a'r awyr yn agor ei drws i ollwng bysedd o fellt i lawr i'r ddaear. Mae'r storm reit uwchben ar sŵn yn fyddarol. Mewn tua awr bydd y storm yn siwr o gilio, gan nos yfory o leia'. Ond dyna'r patrwm ar hyn o bryd, sef halu poeth trwy'r dydd ac yna coblyn o storm bob nos. Bydd fel hyn rŵan tan fis Ionawr, sef diwedd y cyfnod glawog.

Braf oedd cael dod adref yn ystod yr haf, ond fedra i ddim coelio fy mod yn ôl ym Mrwnei rŵan ers bron i bedwar mis. Mae'r amser yn hedfan heibio, ac mae bywyd yma mor brysur ag erioed, yn enwedig o rŵan tan y 'Dolig.

Rydw i yn aelod o'r pantomeim erbyn hyn ac rydym wrthi'n brysur yn ymarfer ar ei gyfer. Mae gennyf yn ogystal yr holl ymarferiadau efo'r grŵp jazz.

Tebyg i rai ohonoch glywed yn ddiweddar bod pennaeth y wlad yma wedi ymweld â Phrydain am dridiau gan ei fod yn dathlu 25 mlynedd ar yr orsedd. Wel, tua wythnos cyn iddo gyrraedd Prydain roedd wedi trefnu i ymweld â thrigolion Kuala Belut (fy nhiriogaeth i fel petai). Roedd hi'n fore Sadwrn chwilboeth, tua wyth o'r gloch y bore penderfynais fynd efo dwy athrawes arall i lawr i'r parc er mwyn cael cip bach ar y dyn ei hun. Daeth yr awr fawr o'r diwedd, a phawb yn ceisio cael cip arno, ond roedd yn eistedd mor bell o ble rôn i'n sefyll fel mai ond gwallt ei ben welwn i. Ar ôl tuag deng munud o 'weddïo' dyma fo'n penderfynu mynd am dro i weld y bobl. Roedd pawb yn gwthio'n ofnadwy gan fod pawb am gyffwrdd ei law. Rhoddais fy llaw chwith allan i ganol pentwr o ddwylo eraill oedd o'm hamgylch, ond wrth lwc cofiais yn sydyn mai anghwrtais iawn ydy cynnig eich llaw chwith yma, ac felly dyma roi fy llaw dde allan yn reit sydyn. Mam bach, roedd o'n dod yn nes ac yn nes, ac roedd o'n socian o chwys, a'i ddau frawd hefo fo. Roedd yr heddlu yn ceisio gwthio pawb yn ôl, ond yn sydyn, dyma deimlo llaw yn cyffwrdd â'm llaw i, ac yna . . . (wedi'i gyfieithu!!):

Y Fo: Helô, o ble ti'n dod?
Y Fi: Rwy'n dod o ogledd Cymru, ardal a elwir Eryri.
Y Fo: A be' wyt ti'n ei wneud ym Mrwnei?
Y Fi: Dwi'n gweithio i gwmni Shell.
Y Fo: Yn gwneud be' felly?
Y Fi: Dysgu. Dwi'n athrawes yn Ysgol Panaga.
Y Fo: Neis iawn.

Ac ymlaen a fo, a nghalon yn curo fel gordd. Roeddwn wedi cynhyrfu gymaint fel na sylweddolais fod dwylo'r ddau frawd wedyn wedi cyffwrdd â'm llaw hefyd. Roedd y camerau teledu yno, ac roedd y bobl leol yn edrych arnaf ac yn fy llongyfarch! Yn yr ysgol fore Llun roedd llawer o blant yn dweud iddynt fy ngweld ar y teledu, ond yn anffodus ni lwyddodd neb i recordio'r digwyddiad.

Mae yna wythnos arall wedi mynd heibio erbyn hyn, ac rydw i'n eistedd efo tua 50 person arall yn ymarfer ar gyfer ein pantomeim Nadolig, sef 'Jac a'i Rynnar Bîn'. Amser felly i gloi'r llythyr hwn yn ystod yr egwyl, a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Ni fyddaf yn dod adref dros yr Ŵyl. Dwi'n ymweld ag Wncl Sam yn yr UDA a theimlad rhyfedd fydd dathlu'r 'Dolig oddi cartref am y tro cyntaf. Dim twrci lleol, dim sdwffin cartra dad a dim menyn toddi bendigedig mam ar ben yr hen bwdin. Bydd y llythyr nesaf, gobeithio, yn adrodd hanes fy nhrafals o LA i San Ffransisco, gan ymweld â Las Vegas, y Grand Canyon, a.y.b. Felly, tan y flwyddyn newydd, pob bendith.

DELYTH

Donna Louise Evans o Lanrug a enillodd set Lego yng nghystadleuaeth Clwb Sbondonics.

DRAENOG

Achoswyd trafferthion i nifer o drigolion lleol gan y llifogydd diweddar. Gwraig sy'n gweithio yn un o syrjeris meddygon y fro yn gorfod dringo i ben wal ffrynt ei chartref er mwyn cychwyn i'w gwaith, a chamu oddi yno (mewn sgert braidd yn dynn yn ôl a glywais) i gefn lori adeiladwr lleol. *Pick-me-up* 'ta *pick-up* oedd ar y prescripsiwn tybed?

Nadolig
Llawen
a Blwyddyn
Newydd dda
i chwi oll oddi wrth

David, Bridget a Nikey Ryan

SWYDDFA'R POST

Waunfawr

Ffôn 650651

CYFARCHION NADOLIG

WAUNFAWR A BETWS GARMON

Y FAVORIT ESTATE LS – mwy fyth o lwyddiant ysgubol.

SKODA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r Staff

MODURDY PANT WAEN WAUNFAWR

Ffôn: 650524

WELDPAR
CYMRU WALES

8 Pant y Waun
WAUNFAWR. Ffôn: 650426
WELDIO O'R SAFON UCHAF
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Brian Parry

Cyfarchion y tymor gan *Westy*
PLAS-Y-COED
Betws Garmon,
Ffôn: Waunfawr 650284



- Ar agor bob dydd
- Trwydded Lawn
- Bwydydd Restaurant a Bar

MICHAEL A RAILI BURTON
LLYTHYRDY BETWS GARMON

Ffôn: Waunfawr 650233

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Mae **Liz a John Whitehead, Anna a Lisa**

SIOP CHIPS WAUNFAWR

Ffôn: 650683

yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

---

SFP

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL

WAUNFAWR Ffôn: 650235

Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân hyn oll, a llawer mwy i'w weld yn ein siop

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth David a Peter Greasley a'r staff

BSI REGISTERED FIRM

NATIONAL ACCREDITATION IN CERTIFICATION BODIES

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
ALLEN AC ANNE ADDISON A'R TEULU

YSTORFA TŶ NEWYDD

WAUNFAWR 650708

Bwydydd, Melysion, Ffrwythau
Papurau Newydd, Cardiau
a Bwydydd Anifeiliaid

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

EMRYS OWEN

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 650253

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
bawb oddi wrth
BERYL A BARRY WALKER
a staff y

SNOWDONIA PARK HOTEL

WAUNFAWR

Ffôn: 650218

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb oddi wrth
DAVID CLOUGH
Ynysoedd
WAUNFAWR
Ffôn: 650 282
Paentio ac Addurno
Gwaith Atgyweirio
'Estimates' am ddim

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr Clwb 300 am fis Tachwedd: £40: A. a J. Jones, Cyrnant Lodge; £25: M. Owen, Ystrad Isa, Betws Garmon; £10: J. Bradshaw, Castle View.

Plygu'r Eco: Ni, pentrefwyr y Waun, fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf o'r Eco. Os y gellwch ddod i helpu gyda'r gwaith byddwn yn falch o'ch cymorth yn festri Croes-y-waun am chwech o'r gloch, nos lau, 28 Ionawr.

Bedydd: Mewn gwasanaeth arbennig yn ystod yr Ysgol Sul ar 29 Tachwedd, gyda'r Parchg S. O. Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Ilid Bryn, merch fach Bryn a Linda Griffith, Perthi.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Heather Owen, Swn y Môr, ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar 10 Rhagfyr.

Y Gymdeithas Lenyddol: Nos Lun, Tachwedd 16, daeth cynulleidfa dda i'r Ganolfan i glywed sgwrs gyda sleidiau gan Mrs Mary Vaughan Jones ar ei theithiau i rai o fannau terfysglyd y byd. Llywyddwyd gan Mrs Glory Roberts, Ty Hen, a thalwyd y diolchiadau gan Mr O. T. Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Rhagfyr 14, pan y daw Mr Emyr Jones, Caernarfon (Ty'n Ceunant gynt) i roi sgwrs ar 'Rhai o hen gymeriadau'r Waun a Betws Garmon', gyda Mrs Elena Wyn Jones yn llywyddu. Bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar Ionawr 11 ac fe ddisgwylir Mr Dafydd Thomas, Warden Ymddiriedolaeth Ynys Enlli, i roi sgwrs gyda sleidiau ar 'Cyfrinach Ynys Enlli'. Llywydd y noson fydd Ifanwy Rhisiart.

Y Clwb Chwaraeon: O dan nawdd y Clwb cafwyd cyngerdd hynod o lwyddiannus yn y Ganolfan ar nos Wener, Tachwedd 27, yng nghwmni Côr Meibion yr Eifl, o dan arweiniad Mrs Valerie Ellis; Lleisiau Lliwedd, Llanberis, o dan arweiniad Mrs Mati Hughes; Carys Edwards, y Parc, Bala; Meira Turner ac Elin Gwilym, y ddwy adroddwraig leol. Yr arweinydd oedd Mr Ifan Glyn Jones a'r gŵr gwadd oedd Dr Huw Roberts a gyfrannodd yn hael i goffrau'r noson. Y cyfeilyddion oedd Mrs Ilid Jones a Mr Gareth Jones a thalwyd y diolchiadau gan y Cynghorydd Eurig Wyn. Trefnwyd y noson ar ran y Clwb gan Rol Williams.

Yr Urdd: Er gwaetha'r glaw di-ddiwedd mwynhaodd saith o blant yr Adran eu penwythnos yng Nglan-llyn — do, fe fuon nhw allan yn y canŵs — glaw neu beidio. Diolch Wncl Eifion am fynd gyda nhw.

Ar Tachwedd 25 ymunodd Mrs Mary Vaughan Jones â ni. Trwy gyfrwng sleidiau fe ddangosodd lecynnau diddorol yn yr ardal a hir fu'r dyfalu ble'r oedd y mannau gwahanol. Dangosodd y noson mor ychydig oedd y plant (ac ambell i oedolyn oedd yn bresennol) yn wybod am eu hardal. Diolch am bobl fel Mrs Vaughan Jones i'n goleuo .

Nos Fercher, Rhagfyr 2, daeth Mrs Jill Brown atom i ddangos i'r plant sut i wneud addurniadau Nadolig allan o does. Roedd hi wedi gofalu rhoi cyfarwyddiadau i'r plant ar sut i'w coginio ac yna eu paentio adref.

Yr wythnos yma bydd yna bobl go

Kim Taylor fu'n cynrychioli'r Adran yn y gala nofio genedlaethol ym Mhontardawe ar Ragfyr 5ed.

ryfedd yn cerdded i'r Ganolfan, tua'r 6 o'r gloch ar nos Fercher, wrth iddyn nhw gyrraedd ar gyfer disgo gwisg ffansi.

Mae'r Adran eleni yn bwriadu cerdded o gwmpas y pentref i ganu carolau. Ar ddiwedd y noson byddant yn cael mynd i'r Ganolfan i gael parti Dolig bach, sy'n cael ei drefnu gan bwyllgor y Ganolfan.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mr Iorwerth Jones, Dychwelfa, a Mrs Southworth sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Croesawn Mrs M. Lloyd Jones, Bryn Tawel; Mrs J. Parry, Clydfan; Mrs J. M. Spark, Tremnant; Mrs Beryl Llwyd Jones, Dôi y Coed; Mrs Delyth Jones, Tan-y-coed; Mrs Sioned Glyn, Garmon; Mrs W. Evans, Lleifior a Mrs Davies, Nant-y-mynydd, adref o'r ysbyty, gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

Hefyd anfonwn ein cofion at bob un o'r pentref sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar.

Priodas: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Joanna Marston, Blaen y Nant, ar ei phriodas â Jonathan Masters. Wedi cyfnod yn trafaelio o amgylch India byddant yn cartrefu ym Methesda.

Llwyddiannau Eisteddfodol: Tri o'r pentref sy'n mwynhau cystadlu mewn eisteddfodau yw Myra Turner, Alun Williams a Humphrey Jones, ac mae'r tri yn llwyddo'n aml i gipio'r wobr gyntaf. Yn Eisteddfod Talwrn, Môn, bu Alun yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth canu emyn; ac yn Eisteddfod Llanaelhaearn bu Humphrey yn llwyddiannus am ganu emyn a Myra yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth adrodd agored. Llongyfarchiadau i'r tri a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Diolchiadau:

Dymuna Mr a Mrs A. Addisson, Storfa Ty Newydd, ddiolch am y gefnogaeth a gawsant i'w hymdrech i gasglu arian at apêl Cronfa Plant Mewn Angen. Anfonwyd £90 i'r gronfa. Enillwyd y bocs siocled gan Mr Bryn Jones, Parciau Bach, Caernarfon.

Dymuna Irene, Pant Teg, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd mawr tuag ati tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch arbennig i

Parhad ar dudalen 9

Mae
LLEUFER A NELMA PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR
yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GERAINT OWEN
Gosodwr Carpedi
(A phob math o loriau)
Cil-y-mynydd
Waunfawr
Rhif Ffôn: Waunfawr 650552
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth: Mr a Mrs Owen

CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer diweddaraf, sydd ar gael.
Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
Hefyd ail-osod carpedi
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ANTUR WAUNFAWR
Trefniant Blodau Sych, Siwtni, Jams, Briwgig
Siop Bryn Pistyll
ANRHEGION NADOLIG
ADDURNIADAU NADOLIG
Siampw, Clustogau, Ewyn Baddon, Olewon Aromatherapi, Teganau Meddal, Mobiles Pren
Agored trwy'r wythnos 9 – 4 p.m.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
PEINTWYR PADARN
(Trefor Jones ac Alan Bee)
LLANBERIS
am waith da ...
★ tu fewn a thu allan
★ crefftwyr gofalus
★ prisiau rhesymol
★ amcanbrisiau am ddim
Ffoniwch **870397**

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Williams, Glanrafon, Ffôn: 872275

Clwb Pobl y Cwm: Yn ein cyfarfod ar 19 Tachwedd cyflwynodd y llywydd, Mr Llew Hughes, 'Ofergoeliaeth' fel pwnc trafod, a difyr fu'r drafodaeth a'r hel atgofion am ddigwyddiadau a gysylltid gynt â gwahanol 'arwyddion' neu 'wledigaethau', e.e., un frân, neu rif 13. Pleser fu cael croesawu Mrs H. M. Roberts yn ôl, a chydymdeimlwyd â Mrs M. Rowlands a'r teulu o golli aelod o'r teulu, Mr Arthur Jones, Bethesda. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs Mair Williams a Mrs Jane Parry ac enillwyd y raffl gan Mr Llew Hughes.

Ar 3 Rhagfyr roeddym yn edrych ymlaen at gwmni ein gŵr gwadd, sef Mr Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis, ac ni chawsom ein siomi, gan i ni gael gwledd yn ei gwmni y tro hwn eto. Bu Mr Hughes yn dilyn hanes bywyd merch arbennig iawn fu'n byw amser maith yn ô, ac o'r herwydd roedd y gwaith mawr a gyflawnodd y pryd hwnnw, yn fwy rhyfeddol, ac mae dawn ac arddull Mr Hughes yn rhoi rhywbeth ychwanegol i'r cymeriadau y sonia amdanynt. Diolchodd y llywydd i Mr Hughes. Miss E. Hughes a Mrs E. Hughes ofalodd am y baned a'r raffl, ac enillydd y raffl oedd Mrs M. Rowlands.

Dymuna'r aelodau anfon ein cofion a'n dymuniadau da i'r aelodau sydd yn wael, sef Mr R. H. Parry, adref, a Mrs K. Watkins, yn yr ysbyty.

Diolch: Dymuna Hugh a Joyce Jones, Bod Elan, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniwyd tra buont yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddynt ddod adref.

Ysgol Gymuned Cwm-y-glo: Bu Luke Roberts yn yr ysbyty ddechrau'r mis. Rydym yn falch iawn ei fod wedi gwella'n dda a'i fod bellach yn ôl yn yr ysgol.

Aeth Keith, Hugh, Daniel, Twm, Robert ac Anthony i gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth pêl-droed Cwpan George Mclean, yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Er mai colli fu eu hanes rhaid eu llongyfarch am chwarae'n galed a chael hwyl yn gwneud hynny.

Aeth gwobr gyntaf Clwb yr Ysgol am fis Tachwedd i Mr John Steele a'r ail wobr i Mrs Rita Williams.

Cafwyd noson o Fingo llwyddiannus ar y 27ain o Dachwedd. Gwnaed £260 o elw. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni / Athrawon am ei threfnu ac hefyd i Mrs Enid Price am alw'r rhifau.

Cynhaliwyd cyfarfod o Lywodraethwyr yr ysgol ar nos Lun, Tachwedd 30ain.

Cynhaliwyd prynhawn agored i'r rhieni ar y 1af o Ragfyr. Cawsant gyfle i weld y plant wrth eu gwaith a chael sgwrs gyda'u hathrawon.

Cafodd plant Bl. 3, 4, 5 a 6 brynhawn diddorol iawn yng Nghastell Caernarfon. Roedd gweithdai 'Gwyliau Syr Gruffudd' wedi eu trefnu gan Adran Hanes y Coleg Normal.

Gyda'r nos aeth nifer ohonom o gwmpas y pentref i ganu carolau. Diolch am y croeso arbennig a gawsom gan Mrs Jones yng Ngwesty'r Fricsan.

Bu wythnos olaf y tymor yn un eithriadol o brysur a chynhyrfus. Nos Lun cafwyd perfformiad o ddrama gerdd Nadolig — 'Y Gofalwr' gan blant yr ysgol. Pnawn Mawrth mwynhawyd pantomeim 'Blodeuwedd' yn Theatr Gwynedd. Cawsom ginio Nadolig blasus iawn ddydd Mercher. Diolch i Mrs Orritt a Mrs Jones am ei baratoi. Pnawn Iau ymunodd aelodau Clwb Pobl y Cwm â'r dran Iau. Cafwyd prynhawn difyr iawn yn canu carolau a rhannu atgofion am Nadoligau ers talwm. Mwynhawyd lluniaeth oedd wedi ei baratoi gan y plant hynaf.

I gloi y tymor trefnodd y Gymdeithas Rhieni / Athrawon barti Nadolig i'w gofio i blant yr ysgol. Cafwyd bwyd, disgo, gemau ac ymweliad gan Santa. Do, fe gafodd pob plentyn anrheg ganddo.

Carem ddiolch o galon i bawb fu mor gefnogol i holl weithgareddau'r ysgol yn ystod y tymor hwn. **Nadolig Llawen a dedwydd i chwi i gyd a phob dymuniad da ar gyfer 1993.**

Parhad o dudalen 8

Llinos.

Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Cyngor Cymuned: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn y Ganolfan ar nos Fercher, 2 Rhagfyr. Yn anffodus nid oedd ymateb ar gael oddi wrth Cyfarwyddwr Priffyrdd y Cyngor Sir ynglŷn â'r syniad o geisio ymestyn y palmant yr holl ffordd i'r garej. Eto nid oedd ymateb gan Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Arfon ynglŷn â'u cyfrifoldeb i lanhau'r strydoedd a phalmentydd y pentref, a chael gwared â'r mân sbwriel a thyfiant chwyn mwynderol. Oherwydd ymateb anfoddhaol oddi wrth ymddiriedolwyr y Capel ynglŷn â grant y Cyngor Cymuned tuag at wella golwg yr hen fynwent penderfynwyd ymholi ymhellach. Hefyd oherwydd cyflwr y lloches bws presennol penderfynwyd cynnwys swm o £500 tuag at y posibilrwydd o godi lloches parhaol gyda chymorthdal grand oddi wrth y Cyngor Sir. Rhoddwyd cefnogaeth gan y Cyngor i ymgyrch y Cyng. Eurig Wyn i ail-ddatblygu safle Ffatri Peblig ar gyfer cyflogaeth a diwydiant. Disgwylir, o hyd, i MANWEB godi golau stryd ychwanegol yng Nghaeathro Bach ar ran y Cyngor Sir.

Newyddion o'r Capel: O ddechrau'r flwyddyn newydd bydd gennym weinidog cynorthwyol yn yr ofalaeth yn sgîl ymddeoliad y Parchg Gareth Alban i fyw yn Ninas. Bydd ef yn cynorthwyo'r gweinidog, y Parchg W. R. Williams. Elw'r Ffair Nadolig ar noson stormus oedd £175 — diolch yn fawr i bawb.

Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn y flwyddyn newydd — Ionawr 3: Parchg Emrys Thomas am 2; 10: Parchg W. R. Williams, Gweinidog, am 2; 17: Parchg S. O. Hughes am 2; 24: Parchg W. R. Williams, Gweinidog, am 2; 31: Parchg Huw Gwynfa Roberts am 2.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

YSTORFA MINFFORDD STORES
GAEATHRO GAERNARFON
YR HEN BOST 1887–1987 AR TYRPEG 1817–1886
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb oddi wrth RICHARD, MARIA a CASSANDRA
Nwyddau groser yn hwylus o fewn eich cyrraedd

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GWALIA GARAGE, CAEATHRO
Ffôn: 673096

M. O. T. ● TRWSIO CEIR ● GWASANAETH TORRI LAWR 24 AWR

ERIC JONES
PENISARWAUN
FFON: 872421

★ Prisaiu rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDEDWYDD I CHI OLL

GERDDI GLASCOED
(Ger Capel Glascoed
PENISARWAUN
Rwan yw'r amser i blannu coed, bylbiau a llwyni
Galwch heibio neu ffoniwch
870453
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
Aled Jones
Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio
4 Bryn Eglwys Penisarwaun
Ffôn: Llanberis 871047

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd — Adran Bentref: Nos Fawrth, Tachwedd 24ain daeth Mrs Meryl Green i'r Ysgol i wneud ymarfer corff hefo'r plant a rhai o'r plant hŷn yn ymuno yn yr hwyl. Diolchwyd iddi gan Wena.

Rhagfyr 1af, Cwis ar ffurf 'Blockbusters' a gafwyd gyda Ann Ifans. Bathwyd enw Cymraeg da i'r gêm gan Siân Lewis — 'Blociau Atal'. Cafodd y ddau dîm — tîmau melyn a gwyrdd — hwyl fawr yn ateb yr amrywiol gwestiynau. Diolchodd Lynne i Mrs Ifans.

Rhagfyr 8fed cafwyd noson yng ngofal Mrs Bronwen Jones. Mwynhaodd y plant eu hunain yn gwneud anrheg Nadolig. Talwyd y diolchiadau gan Stephen Jones.

Nos Fercher, Rhagfyr 16eg, bydd Parti Nadolig a Disgo i gloi gweithgareddau'r tymor. Bydd y cyfarfodydd yn ail gychwyn ar nos Fawrth, Ionawr 5ed, 1993, am 6 o'r gloch yn Neuadd yr Ysgol Gymuned.

Cydymdeimlo: Estynnir y cydymdeimlad llwyraf â Judith ac Eifion Hardin a'r teulu oll o golli Mr John Peris Jones, y Fferyllydd, tad Judith a Gwyn a gŵr Olwen, gynt o'r Winllan.

Diolch: Dymuna teulu'r diweddar John Peris Jones ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd drwy air a gweithred gan drigolion bro'r Eco yn ystod eu profedigaeth. Ystyria Judith ac Eifion, Winllan, eu hunain yn freintiedig yn cael cymdogion sy'n gymaint o gefn ar awr mor ddu.

Dymuna Eileen, Huw, Robin a Glenys, David a Christopher, ddiolch i'r teuluoedd, ffrindiau a phentrefwyr Penisarwaun am bob arwydd o garedigrwydd a estynwyd iddynt yn eu colled sydyn a thrist. Diolchir i Mr Merfyn Jones am y gwasanaeth yn y tŷ a'r Amlosgfa; i Mrs Eluned Jones a Miss Elinor Jones am eu cymorth yn y tŷ; ac i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau trwyadl. Diolchir yn arbennig am y rhoddion ariannol o £750 a anfonwyd i Gymdeithas y Spastics er cof am Iorwerth.

Gwellhad: Da clywed fod Lois Angharad, Gwyddfor, a Mrs Elinor Jones, Heatherbank, yn well wedi'r triniaethau yn yr ysbyty. Anfonir y cofion annwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref.

80 oed: Llongyfarchiadau mawr a phob bendith i Mr Owen Idris Owen, Minffordd, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar Ragfyr 6ed.

Pwyllgor Neuadd: Nos Fawrth, Tachwedd 24ain tynnwyd Clwb Cant a'r enillwyr oedd: Elizabeth Jones, 17 Bryntirion; Judith Harding, Winllan; Ken Williams, Trem Cynfi.

Cinio i'r Henoed: Y mae modd cynnal **Cinio i'r Henoed** yn y Neuadd bob wythnos ond mae'n ofynnol cael tua 15 o enwau. Os oes unrhyw un â diddordeb cysylltir â Mrs Glenys Williams, Trem Cynfi.

Dosbarth Wlpan: Deellir fod 15 o ddysgwyr yn cyfarfod yn wythnosol yn yr Ystafell Gymuned a'u bod yn cael hwyl dda ar ddysgu'r Gymraeg. Pob dymuniad da i chwi yn 1993.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
★Gwres canolog llawn
★Sustem ddiogelu rhag tân
★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
★Sustem alw nyrs
★Yn Cwrdd â phob angen personol
★Lle bwyta mawr
★Aros cyfnod hir/byr
★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
★Coginio cartefol
★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Alwyn a Sarah Jones
RACCA
PENISARWAUN

★ Dewis da o drefniantau blodau sych
★ Trefniantau blodau ffres
★ "Wreaths" celyn yn arbennig ar gyfer y 'Dolig

Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

BARRYS GLASS

● am Ffenestri a Drysau UPVC ● Estimates am ddim
● Gwydr a gwydro o bob maint ● Ffenestri Gwydr Dwbl
● Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr

£140 wedi ei ffitio — **£187** wedi ei ffitio — **£350** wedi ei ffitio



Y PRISIAU GORAU – GARANTÎD!
CAMELOT, PENISARWAUN
871144 (dydd) **871774 (nos)**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Ysgol Sul Bosra: Rhagfyr 12fed bydd pedwar aelod o'r Ysgol Sul yn cael eu derbyn yn aelodau cyflawn o Eglwys Crist, am 2 o'r gloch. Cyflwynir Beiblau iddynt ar yr achlysur pwysig hwn yn eu bywydau. Y pedward aelod yw Sioned Wyn Jones, Arwel Jones, Llion Roberts ac Osian Dafydd. Dymunir pob bendith iddynt gan obeithio y byddant yn ffyddlon i ddysgeidiaeth Crist drwy gydol eu bywydau.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig gan y plant ar bnawn Sul, Rhagfyr 19eg am 2. Stori y mae'r plant yn hoff iawn ohoni, sef 'Yr Iesu a'r Robin' a geir eleni. Croeso cynnes i chwi.

Parti Nadolig, Rhagfyr 22: Bydd Parti Nadolig ac ymweliad gan Sant y Plant, Siôn Corn, bnawn Mawrth, yn Neuadd yr Eglwys am 3-5.30 — ar y cyd ag aelodau Ysgol Sul Eglwys Santes Helen. Diolchir i bawb am bob cyfraniad tuag at y parti.

Noson Wasael: Bydd paned a mins pei ynghyd â chanu'r hen garolau ar **nos Lun, Rhagfyr 21ain,** yn y Neuadd am **7 o'r gloch.** Tynnir Clwb Cant ar y noson. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n cefnogi'r Clwb Cant a'r holl weithgareddau yn ystod 1992.

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Bu prysurdeb mawr yn yr ysgol yn ddiweddar gyda'r plant yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwahanol.

Yn gyntaf, bu nifer o blant yn llwyddiannus gyda'u nofio gyda nifer yn llwyddo i ennill gwahanol fathodynnau — O 10m i fathodyn 'Challenge One' sy'n gofyn am gryn sgiliau dŵr. Llongyfarchiadau i bawb.

Yn ddiweddar cymrodd tri tîm o'r ysgol ran yn y Cwis Llyfrau. Yn trafod *Benja'r Bwgan Brain* a *Tad-cu yn Colli ei Ben* roedd Eurig Roberts, Joe Hill, Erin Eifion ac Alaw Jones. Cafwyd dau dîm i drafod *Trip yr Ysgol* a *Tisio Bet?*, sef Vanessa Lloyd, Nia Griffith, Wena Williams a Daniel Fletcher. Aelodau'r tîm arall oedd Dion Dafydd, Christopher Turner, Elgan Williams a Gavin Edwards. Ar hyn o bryd ni wyddom os ydym wedi llwyddo yn y rownd gyntaf, ond mae pawb wedi cael pleser a boddhad o gymryd rhan ac o ddarllen a thrafod y llyfrau.

Daeth Nyrs Betty Parry i'r ysgol yn ddiweddar i siarad gyda plant dosbarth y Babanod fel rhan o'u thema am 'Fi fy hunan'. Cafodd y plant bleser mawr a budd o wrando ar y sgwrs a hoffwn ddiolch ar ran y plant am gyfraniad gwerthfawr a gyflwynwyd yn null arbennig ac annwyl Nyrs Parry.

Cymryd arnynt eu hunain i gasglu arian at weithgareddau Plant Mewn Angen wnaeth nifer o'r plant hynaf, ac fe gasglwyd £35.63. Da iawn chi am eich gwaith caled dros eraill.

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Nadolig yn neuadd yr ysgol eleni ar ddydd Iau, Rhagfyr 10fed, ac fe wnaed casgliad tuag at Apêl Llid yr Ymennydd. Diolch i'r rhieni a'r cyfeillion a fu'n brysur yn paratoi dilladau ac anrhegion ar gyfer y gwasanaeth.

Yr un diwrnod â'r Gwasanaeth daeth Radio Cymru i'r ysgol i recordio'r plant yn canu carol a ysgrifennodd Mrs Ann Thomas ar gyfer y gystadleuaeth carolau. Gobeithiwn glywed y recordiad yn cael ei ddarlledu ar y radio rhwng **8.30 a 9.30 a.m. ar fore Dydd Nadolig.**

Cyfeillion yr Ysgol: Cafwyd Ffair Nadolig, wedi'i threfnu gan y Cyfeillion, yn Neuadd yr Ysgol Gymuned ar nos Wener, Tachwedd 29ain. Bydd yr arian yn mynd tuag at offerynnau cerdd yr ysgol.

Agorwyd y Ffair yn swyddogol gan Mrs Mary Davies, neu Anti Meri i'r plant a'r staff a thrigolion y pentref.

Pleser oedd ei gweld a diolchir iddi am ei rhodd anrhydeddus. Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y noson. Bydd y Cyfeillion yn brysur eto ar Rhagfyr 11eg yn paratoi Parti Nadolig i'r holl blant yn yr Ysgol. Gwerthfawrogir pob cyfraniad a dymuna'r Cyfeillion ddiolch i Mrs Gwen Roberts, Weirglodd Goch am y siwt goch.

Dymunir Nadolig Llawen i chwi gan obeithio y bydd 1993 yn argoeli'n dda.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Geni • Bedyddio • Ieuoed • Priodas
Dyweddio • Ymddeoliad • Llwyddiant • Atgofion • Diarhebion • Graddio • Anrhydedd • Dyrchafiad

Achlysur arbennig?
Anrheg unigryw?
Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

Cynhyrchir pob sampler yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

Hefyd gwaith o bob math gwneud dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o Farddoniaeth

Roedd Ysgol Brynrefail o dan ei sang ar ddydd Mawrth, 15 Rhagfyr, pan ddaeth disgyblion Ysgol Pendalar i dreulio prynhawn yng nghwmni disgyblion y chweched dosbarth.

I ni'r chweched dechreuodd y gwaith o baratoi wythnosau yn ôl, gyda pawb yn gwneud eu rhan fach ar gyfer yr achlysur. Bu cynrychiolwyr o bob pentref yn casglu arian oddi wrth siopau a busnesau lleol a bu'r ymateb yn anhygoel o hael, rydym yn gwerthfawrogi cydweithrediad pawb. Bu disgyblion eraill yn casglu arian tua allan i Leos ar y 5 a 12 Rhagfyr.

Cyrhaeddodd y diwrnod mawr a safai disgyblion y chweched yn disgwyl am ddisgyblion Ysgol Pendalar. Cychwynodd y prynhawn gyda rhai o Ysgol Pendalar yn ein diddanu gyda chân neu ddwy, yna heidiodd pawb i'r ffreutur i flasu gwledd fendigedig a baratowyd gan Mrs Carys Evans a merched y chweched ac roedd yn galondid gweld fod dim un briwsionyn ar ôl ar y diwedd.

Uchafbwynt y dydd oedd ymweliad Siôn Corn a'i gorach bach ffyddlon. Derbyniodd pob un o'n gwesteion anrheg personol i leihau'r aros tan y diwrnod mawr, ac ein anrheg Nadolig cynnar ni oedd gweld y wynebau ifanc yn llawn llawenydd, a gwybod ein bod wedi cyfranu dat eu hapusrwydd.

Hoffem ddiolch o waelod calon i'r holl unigolion a busnesau lleol am eu haelioni i wneud y parti mor lwyddiannus.



Llun o un o ddosbarthiadau Ysgol Tanycoed o gwmpas dechrau'r ganrif, trwy law teulu Allt y Bryn, Tai Tan y Coed, Llanrug.

PARTI NADOLIG PENDALAR

Siôn Corn a'i gorrach bach ffyddlon.

Mae Siôn Corn yn un caredig.

Plant ysgolion Pendalar a Brynrefail yn mwynhau ymweliad Siôn Corn â'r parti.

O SIAMBAR SELWYN

Buba oedd ei enw fo, Buba Jabang. Gweithio roedd o yng ngwesty mwya' moethus y Gambia, sef y Kombo Beach. Bachgen ifanc, croenddu, 22ain oed oedd Buba, a gwên barhau ar ei wyneb o.

'Roedd o wedi sylwi bod Myra a minnau yn siarad iaith wahanol i'r gweddil o'r gwesteion. Clustfeiniodd a dechreuodd ein holi. Oedd, roedd ganddo fo ddiddordeb arbennig mewn ieithoedd, ac eisoes roedd o'n gyfarwydd â dywediadau syml, bob dydd yn yr Almaeneg a'r Ffrangeg. 'Roedd o wedi dysgu'r ymadroddion hyn drwy sgwrsio â'r ymwelwyr. Wrth gwrs roedd o'n rhugl mewn Saesneg.

Roedd Buba yn awyddus i ddysgu'r iaith ddieithr a siaradem — Cymraeg. Bob pnawn ar ôl gorffen ei ddyletswyddau deuai i eistedd atom o dan ein tŷ to gwellt ar draeth Kotu, a chyn pen dim roedd ymadroddion cyffredin fel 'bore da,' 'diolch yn fawr' a dyddiau'r wythnos yn llithro'n llyfn dros ei wefusau. Chlywais i rioed yr un dysgwr yn gallu ynganu'r lythyren 'ch' mor loyw ag o. Roedd o'n gallu dweud 'dydd Mercher' a 'chwech' cystal ag unrhyw Gymro. Roedd yntau fodd bynnag yn llyncu'i dafod gyda'r 'll', a chai gryn drafferth i ynganu 'dydd Llun'.

Ta waeth, hyfryd oedd clywed Buba yn ein cyfarch yn foreol â 'bore da', gan ddweud pa ddiwrnod oedd hi ac yn ffarwelio â ni bob pnawn gyda'r 'hwyl fawr', 'gwelai chi fory', a 'diolch yn fawr'.

Fe wyddoch chi fel finna am sawl Sais a fynnodd gartrefu yn yr ardal hon ac sydd wedi byw yn ein plith am flynyddoedd lawer, a fedran nhw ddim dweud 'diolch yn fawr' heb fod 'i tafodau nhw yn bwrw tin dros ben yn 'i cegau nhw. Gwyddom am eraill heyf (a diolch amdanynt) sydd wedi ymdrechu i ddysgu'n hiaith. Ond prin ydyn nhw ar gyfartaledd i'r gweddill.

Os ewch chi rywdro i'r Gambia ac aros yng ngwesty'r Kombo Beach, peidiwch a synnu os clywch chi fachgen croenddu yn eich cyfarch yn Gymraeg. Buba fydd o reit siŵr.

Gambia yw'r wlad annibynnol leia' ar gyfandir Affrica — tua 4,400 milltir sgwâr. Tua 200 milltir o hyd a chyfartaledd o tua 20 milltir o led. Yr ugain milltir mwy neu lai yn un traeth hi o dywod yn croesawu tonnau'r Iwerydd. Eto mewn gwlad mor fach mae yna tua 800,000 o bobl yn byw. Pobl gyfeillgar, parod i sgwrsio, awyddus i'ch plesio, a rhai (fel ym mhob gwlad) yn fwy na pharod i'ch twyllo hefyd. Gwlad sy'n ddibynol ar dwristiaeth a ffermio yw'r Gambia. Gwlad sy'n baradwys i adarwyr. Does 'na ddim problem newyn yno, ond mae yno dlodi.

Gan ei bod yn y trofannau, roedd yr haul tanbaid uwch ein pennau drwy gydol y dydd bron, a'r tymheredd ar gyfartaledd o 97° yn y cysgod. Profiad arbennig oedd cael mynd mewn 'jeep' ar saffari i berfeddion y wlad ar hyd llwybrau llychlyd. Cael ymweld â chartrefi ac ysgolion, a chael cymryd rhan yn y gweithgareddau traddodiadol gyda'r trigolion o dan gysgod coeden enfawr — 'coeden eliffant'. Roedd hyd yn oed y plant lleiaf (tua dwyflwydd oed) yn siglo'n frwdfrydig i rythm y drymiau taro.

Anodd coelio y cyfeirid at y wlad fel bedd y dyn gwyn ychydig flynyddoedd yn ôl.

* * * *

Daeth Aberdaron yn fyw i'm cof yno un prynhawn. Criw o fyfyrwyr ifanc yn mwynhau eu hunain yn herio 'tonnau gwyllt y môr'. Aeth dau ohonynt i drafferthion ac aeth eu hathro i ddannedd y môr terfysglyd i'w helpu pan glywodd eu cri. Achubwyd y ddau fyfyriwr ond collodd yr athro ei fywyd. Y bore dilynol roedd 'na ddwsinau o fyfyrwyr trallodus yn rhodio'r traeth yn eu gwisgoedd du a gwyn, eu golygon tua'r môr, yn disgwyl iddo ollwng corff eu hathro o'i grafangau.

Do, daeth Aberdaron yn fyw i'm cof pan ddaeth angau i draeth Kotu ar brynhawn crasboeth o Dachwedd.

* * * *

I gloi ar nodyn hapus. Dyma lun o rai o blant bach y Gambia yn llawenhau o dderbyn anrhegion gan blant ac ysgolion bro'r Eco. Nadolig Llawen iddyn nhw ac i holl ddarllenwyr y golofn hon hefyd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

YR HEN YSGOL

LLANDDINORWIG

SEINDORF IEUENCTID DEINIOLEN

CYNGERDD BLYNYDDOL

Nos Lun, 21 Rhagfyr 1992 yn YSGOL GWAUN GYNFI am 7.30 o'r gloch

Arweinydd y Noson:
HEFIN GORONWY JONES

Bydd hanes y Band ar ymweliad a'r Almaen yn cael ei adrodd gan Gwyn Parri.

DOWCH YN LLU I GEFNOGI IEUENCTID EIN PENTREF

MYNEDIAD AM DDIM



Dde: Plant Ysgol Gwaun Gynfi yn y disgo ar ddydd Apêl Plant Mewn Angen.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru — mis Medi: £10: Miss Olwen Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig; £8.50: Mrs Ruth Jones, 94 Pentre Helen. **Mis Hydref:** £10: Mr J. C. Jones, 1 Tŷ'r Faenol; £8.50: Mr Hywel Lewis, Llys Annedd. **Mis Tachwedd:** £10: Mrs Letticia Roberts, 8 Hafod Oleu; £8.50: Mr Meirion Williams, 3 Pentre Helen. **Mis Rhagfyr:** £10: Mrs L. M. Lewis, Llys Annedd; £8.50: Mr Graham Sutherland, Pen-y-bont.

Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill yr ail wobr ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llandudno, ddiwedd mis Tachwedd. Hwy hefyd a enillodd Gwpan Ken Williams am y perfformiad gorau o emyn dôn yn eu hadran.

Bydd cyngerdd y Seindorf Ieuenctid yn cael ei gynnal yn Ysgol Gwaun Gynfi ar nos Lun, Rhagfyr 21, am 7.30 o'r gloch.

Ysgol Feithrin: Cafwyd diwrnod arbennig yn yr Ysgol Feithrin ar ddydd Gwener, 20 Tachwedd. Daeth y plant a thedi gyda nhw i'r ysgol ac fe gasglwyd £20 tuag at apêl Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu cyfraniad. Bydd parti Nadolig y plant bach ar ddydd Mercher, 16 Rhagfyr, yn yr Ysgol Feithrin, pan y bydd Siôn Corn yn galw heibio.

Clwb Elidir: Cynhaliwyd cyfarfod ar 1 Rhagfyr o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Gwesteion y te oedd Mrs Mair Lewis, Mrs Betty W. Davies a Miss Lizzie Thomas. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Mair Lewis a'r enillydd oedd Miss Jean Moeller. Fe fyddwn fel Clwb yn mynd am ginio Nadolig i Goleg Pencraig ac yna ymlaen i Landudno am weddill y prynhawn. Cydymdeimlwyd â Mrs Sally Lewis a'r teulu ar golli brawd.

Mewn cyfarfod blaenorol cafwyd sgwrs gan Miss Jean Moeller ar 'Teithiau ddoe a heddiw' pryd y rhoddwyd y te gan Mrs Pat Evans, Mrs Edna Coles a Mrs Dolly Brown. Enillydd y wobr lwcus, rhoddedig gan Mrs Pat Evans, oedd Miss Eileen Williams.

Mewn cyfarfod arall cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Mrs J. Eirlys Williams ar 'Prisiau ddoe a heddiw'. Gwesteion y te yn y cyfarfod hwn oedd Mrs Nancy Thomas, Mrs Hannah J. Thomas a Miss Jean Moeller. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Nancy Thomas a'r enillydd oedd Mrs Eirlys Ll. Jones.

Diolchiadau:

Dymuna teulu'r diweddar Arfonwy Jones, 29 Pentre Helen, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl.

Dymuna Mr a Mrs Jacob James, Regent House, ddiolch o galon i'r teulu a chyfeillion am yr holl gardiau, anrhegion, blodau hardd a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar 2 Rhagfyr. Braint oedd cael clywed oddi wrth hen gyfeillion bore oes ac a ddaeth a ddoe yn ôl. Derbyniwch ein diolchiadau gwresocaf.

Dymuna Mrs Annie Williams, 1 Tai Califfornia, ddiolch yn fawr i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd tuag ati yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref. Diolch hefyd am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn, a phersonol, ac hefyd i'r meddygon a'r nyrsys yn Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

Er Cof: Ni ddêl un nos na dydd heb gofio am y Nadolig a gawsom gennych chwi Dad a Mam, sef Mr a Mrs W. J. Jones, Ysgoldy a Clwt-y-bont — eu merch, Dorothy May, Caernarfon.

Ysgol Gwaun Gynfi: Mae prifathro a staff yr Ysgol yn dymuno Nadolig Llawen i'r ardalwyr ac yn diolch am bob cefnogaeth i waith yr Ysgol yn ystod y tymor. Bu diwedd y tymor yn hynod o brysur fel arfer. Bu'r rhieni yn gweld gwaith y plant yn yr Ysgol ar Ragfyr 7fed ac 8fed. Cafodd y plant eu cinio Nadolig ar Ragfyr 10fed. Bu Cwmni'r Frân Wen yn cyflwyno 'Am-a-swn' i adran y babanod y diwrnod canlynol. Derbyniodd yr Ysgol wahoddiad gan Gyngor Eglwysi Deiniolen i arwain gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Ebeneser bnawn Sul, Rhagfyr 13eg. Ar Ragfyr 15fed bu'r plant yn gweld y pantomeim 'Blodeuwedd' yn Theatr Gwynedd.

Cynhaliodd plant yr Ysgol ddisgo ar ddiwrnod Plant Mewn Angen y BBC yn ddiweddar. Casglwyd £77 tuag at yr achos. Roedd yr Ysgol Feithrin hefyd wedi bod yn brysur yn casglu £20 y diwrnod hwnnw er budd yr apêl flynyddol hon.

Cyfarfod y Plant: Daeth tymor Nadolig y cyfarfod plant sy'n cael ei gynnal ar bnawn dydd Iau yng Nghapel Ebeneser i ben ar Ragfyr 10fed. Bydd y cyfarfod yn ail ddechrau ddydd Iau, Ionawr 7fed. Bydd croeso cynnes i blant gychwyn o'r newydd bryd hynny.

Atodiad Eisteddfodau Lleol

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI
(Deiniolen a'r Cylch)
30 a 31 Hydref, 1992

Beirniaid — Cerdd: Mr Walter Glyn Davies, Amlwch. Adrodd a Llên: Prifardd Selwyn Griffith, Penisarwaun.

ADRODD. Ysgol Feithrin: 1, Nidian Caffo; 2, Siôn; 3, Bedwyr. **Adran Feithrin a Dosbarth 1:** 1, Ffion; 2, Ynyr; 3, Chris. **Dosbarthiadau 2 a 3:** 1, Donna Lewis; 2, Collette; 3, Kevin. **Safonau 1 a 2:** 1, Tristan; 2, Rhian; 3, Lowri a Gethin. **Safonau 3 a 4:** 1, Alaw Mari; 2, Jenny Lynn. **Cydadrodd dan 12:** 1, Parti Seiont; 2, Parti Gwyrfai a Pharti Caledffrwd. **Dan 15 oed:** 1, Alaw Mari; 2, Lyndsey V. Parry; 3, michelle Louise. **Araith (agored):** 1, lyndsey V. Parry. **Darlleniad o'r Ysgrythur i ddysgwyr:** 1, Miss Moeller. **Adrodd o'r Ysgrythur (agored):** Lyndsey V. Parry. **Prifa Adroddiad:** Meira Turner, Waunfawr.

CERDD. Ysgol Feithrin: 1, Ffion; 2, Chris; 3, Marc. **Adran Feithrin a Dosbarth 1:** *1, Manon; 2, David a Bedwyr; 3, Iola a Nidia.* **Dosbarthiadau 2 a 3:** 1, Heledd Bryn Parri; 2, Donna Lewis; Colletee. **Safonau 1 a 2:** 1, Rhian; 2, Gethin; 3, Lowri. **Safonau 3 a 4:** 1, Alaw Mari; 2, Jenny Lynn; 3, Elfed Morgan. **Cerdd Dant dan 12:** 1, Elfed Morgan Morris; 2, Alaw Mari. **Cân Werin dan 12:** 1, Alaw; 2, Elfed; 3, Jenny Lynn. **Unawd Piano dan 12:** 1, Alaw Mari. **Offerynnol 12-15:** 1, Bethan; 2, Siân; 3, Richard. **Unawd dan 15:** 1, Lyndsey V. Parry; 2, Elfed Morgan ac Alaw; 3, Darryl. **Cerdd Dant dan 19:** 1, Nia Land; 2, Ceri; 3, Lyndsey a Deiniol. **Cân Werin dan 19:** 1, Lyndsey V. Parry; 2, Nia Land; 3, Michelle Louise; 4, Darryl. **Deuawd dan 19:** 1, Lyndsey a Nia. **Unawd dan 19:** 1, Nia; 2, Lyndsey; 3, Deiniol. **Deuawd Offerynnol dros 12:** 1, Eilir ac Euros; 2, Sian a Martin; 3, Bethan a Maria. **Unawd Piano dan 19:** 1, Einir Gwnllian; 2, Sian a Lyndsey; 3, Michelle. **Unawd Cerdd Dant (agored):** 1, Aled Wyn; 2, Nia Land; 3, Lyndsey V. Parry. **Unawd Offerynnol dan 12:** 1, Jenny Lynn; 2, Siôn; 3, Arwel. **Unawd i ddysgwyr dros 15:** 1, Miss Moeller. **Unawd Offerynnol (agored):** 1, Euros Williams; 2, Eilir Williams; 3, Martin a Siân.

LLÊN. Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1, Gregory; 2, Ffion; 3, Christopher. **Dosbarth 2 a 3:** 1, Aneurin; 2, Ceri; 3, Heledd. **Safonau 1 a 2:** 1, Rhian Jones; 2, Rhodri; 3, Sandra. **Safonau 3 a 4:** 1, Alaw Mari; 2, Jenny Lynn; 3, Lea Edge. **Barddoniaeth dan 12:** 1, Jenny Lynn; 2, Rhodri Glyn; 3, Sarah Darlaw. **Rhyddiaith dan 15:** 1, Siân Ellen Thomas; 2, Alaw Mari, Jenny Lynn a Lyndsey. **Medal Lenyddol dan 21:** Karen Owen, Pen-y-groes. **Stori Fer:** Karen Owen, Pen-y-groes. **Teligram:** Mr Hugh Jones. **Asio Emyn:** M. G. Williams, Bethel. **Telyneg:** John Morris. **Sylwebaeth:** Hugh Jones. **Llinell Goll:** Alice Griffiths. **Creu Brawddeg:** Hugh Jones. **Cystadleuaeth y Gadair:** Karen Owen, Pen-y-groes.

CELF A CHREFFT. Arlunio — Ysgol Feithrin: 1, Nidian; 2, Siôn; 3, Bedwyr. **Dosbarth Meithrin ac 1:** 1, Christopher Sandall; 2, Rachel Lea; 3, Ffion Thorman Jones. **Dosbarth 2 a 3:** 1, Aneurin; 2, David Crane; 3, Christopher Thomas. **Safonau 1 a 2:** 1, Ruth; 2, Rhian Owen; 3, Claire Williams. **Safonau 3 a 4:** 1, Christy Boothroyd; 2, Steven Thomas; 3, Fiona Clark. **Blwyddyn 1 a 2 Uwchradd:** 1, Richard Williams; **Blwyddyn 3 a 4 Uwchradd:** 1, Tanya Thomas; 2, Siân Ellen Thomas. **Blwyddyn 5 a 6 Uwchradd:** Euros Williams. **Dros 19:** 1, Hugh T. Jones; 2, Dafydd Wyn Jones. **Gwaith llaw — Ysgol Feithrin:** 1, Gwenllian; 2, Sioned Mair; 3, Sarah. **Safonau 1 a 2:** 1, Stephanie Williams. **Blwyddyn 3 a 4 Uwchradd:** 1, Siân Ellen Thomas; 2, Tanya Thomas. **Gwau — Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi:** 1, Ann; 2, Alaw Mari Huws; 3, Lynne a Debbie. **Dan 15:** 1, Lynsey Vaughan Parry; 2, Eleri Evans a Bethan Williams; 3, Siân Evans. **Dros 15:** 1, Elan Griffiths; 2, Gwen Jones. **Gwnïo — Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi:** 1, Beverley; 2, Lynne a Bethan. **Brodwaith:** 1, Myfi Jones. **Crosio:** 1, Nan Owen. **Tegan Meddal:** 1, Valmai Williams; 2, Tanya Thomas.

COGINIO. Dan 8: 1, Trystan Ellis Morris. **Dan 12:** 1, Jennie Lynne Morris; 2, Debbie Richer; 3, Elfed Morgan Morris. **Dan 15:** 1, Bethan Williams; 2, Eleri Evans; 3, Siân Evans. **Dan 19:** 1, Elena Williams. **Caced Cwtard Wy:** 1, Valmai Williams. **Bara Brith:** 1, Meira Morris; 2, Valmai Williams ac Eirlys Williams; 3, Gwen Griffiths. **Taffi Triog:** 1, Gwen Griffiths; 2, Meira Morris; 3, Valmai Williams. **Dynion yn unig:** 1, Hefin Goronwy Jones ac Euros Williams; 2, Brymer G. Parry.

HEN GREFFTAU CYMREIG. Agored — Hunan Ddewisiad: 1, Len Porter.

FFOTOGRAFFIAETH. Dan 12: 1, Urien Siôn Huws; 2, Alaw Mari Huws; 3, Jennie Lynne Morris. **Dan 15:** 1, Lyndsey Vaughan Parry. **Dan 25:** 1, Euros Williams. **Agored:** 1, Valmai Williams.

TREFNIANT BLODAU. Dan 12: 1, Alaw Mari Huws ac Elfed M. Morris; 2, Rhian Jones; 3, Jennie Lynne Morris. **Dan 15:** 1, Lyndsey Vaughan Parry; 2, Richard Williams; 2, Siân Ellen Thomas. **Dan 19:** 1, Siân Griffiths.

Alaw Mari Huws enillydd sawl gwobr gyntaf yn Eisteddfod Deiniolen.

Enillwyd y Fedal Lenyddiaeth (i rai dan 21 oed) a'r Gadair yn Eisteddfod Gwaun Gynfi gan KAREN OWEN, o Ben-y-groes. Lluniodd y beirniad, Y Prifardd Selwyn Griffith, englyn i nodi'r achlysur. Dyma'r englyn ynghyd â'r ysgrif a gipiodd y Fedal Lenyddiaeth i Karen.

Cyrraedd y brig wnaeth Karen — ac esgyn
Yr ysgol yn gymen,
Yn llu d'wedwn yn llawen
Hon heb os sydd heno'n ben.

RHYDDID

Fe allwn yn hawdd fod wedi syrthio i gysgu ar y trên. Cysgu i gyfeiliant breuddwydiol olwynion ar gledrau, a mwmian pell y teithwyr ail-ddosbarth. Ond 'roedd yna ryw anniddigrwydd yn pwnio, pwnio yn nyfnderoedd fy is-ymwybod: rhyw deimlad a ddoi'n ddisymwth pan fyddai pris olew ar i fyny, neu'r cyfraddau llog ar gynnydd. Dim byd personol, emosiynol — dim ond rhyw deimlad fod rhywbeth yn rong yn rhywle.

* * * *

Hanner awr wedi saith meddai'r oriawr a grogai'n euraidd o boced fy ngwasgod. Hanner awr wedi saith yr hwyr rhywle ar gyrrion dinas Llundain . . .

* * * *

Suddais i gôl fy sedd, ac ymgolli'n llwyr yn nhudalennau pinc y papur newyddion: 'roedd hi'n anodd credu 'mod i'n dychwelyd adref o'r diwedd. Anoddach fyth oedd canolbwyntio ar yr hyn a ddarllenwn, neu a sgimiwn drosto, mewn ymgais wyllt i ddeall dadlau Serbia a Chroatia, neu amgyffred hynt truenus y ffoaduriaid ym Mangladesh. Dechreuwyd pennod arall yn nofel fy mywyd innau — pennod nad oeddwn yn siŵr sut y byddai'n datblygu — 'doedd gen i ddim cynllun iddi — ond 'roedd yn bennod a oedd yn hollol dyngedfennol i'r stori. Stori Fy Mywyd.

Bodiais y câs cerfiedig, clawr y mecanwaith a fesurai hyd Y Daith, a chan ei agor yn llydan gallwn ddarllen y geiriau a 'sgrifennwyd y tu mewn:

'On your journey through this life,
Whatever be your goal —
Keep your eye upon the doughnut
And not upon the hole.'

Bron y gallwn alw'r gerdd yn Anthem i ni yn y swyddfa: rhyw sbardun i elwa ar anfanteision eraill, neu hyd yn oed eu camgymeriadau anffodus. Dyna oedd byd busnes — creulon neu beidio — 'roedd brathu'r ddônyt yn weithred a wynebai pob dyn busnes 'llwyddiannus'. Yn ein llithio i sathru ac amharchu pobol. Neb yn arbennig. Unrhyw un.

'Roeddwn yn gobeithio cyrraedd adref cyn i'r clybiau gau — cyn ecsodus y meddwon o'r tafarnau i strydoedd y dref. Y lowts hynny a fyddai'n methu rhwystro'u hunain rhag galw pob un a wisgai siwt yn 'bwffdar' a phob un a gariai gês briff lledr yn enwau na allwn fyth eu hailadrodd. Beiwch y Llywodraeth, y System neu'r ysgolion — ond peidiwch â'u beio nhw.

'Dyna'r cyfalafwr bach snobyddlyd yn siarad eto,' meddech chwithau. 'Doedd pawb ddim yn gallu gollwng popeth a mynd ar y galafan tua Llundain . . .' 'Wedi anghofio am ei wreiddiau a'i ffrindiau ysgol: a'r rheini sy'n gofalu am ei fam . . .'

Ond na: dwi *yn* cofio. Cofio pob dim. Cofio'r ysgol gynradd — byd diddiwedd o chwarae a phoetsio yn y pyllau tywod a'r melinau dŵr. Byd o symlder ac arbrofi naïf. Cwmniaeth a ffrindiau oes a dderbyniais yno — addysg a phrofiad o ymrwymo cymdeithasol a fyddai o fudd i sawl un a saif ar sgwriau tywyll yn cydio potel — a hwythau ond tair ar ddeg.

Dwed rhai 'mod i wedi bod yn *'lwcus'* — ond sut mae mesur *'lwc'*? Onid beth y mae dyn yn ei ddymuno iddo fod yw bywyd, ac onid yr unigolyn sy'n creu ei lwc ei hun? Dyna'r dyn busnes yn siarad eto: *'Keep your eye on the doughnut'* meddai'r bennill, edrychwch yn syth o'ch blaen. Gwisgwch flincars os liciwch chi. Hynny ydi *anwybyddwch.*

Anwybyddu'r methiannau a wnes innau, a dianc o'r jyngl am ddinas oedd well . . .

A dyma fi'n dychwelyd — i galon y wlad — i ymweld unwaith eto â chofgolofn fy mhlentyndod — i adfail Ysgol Gynradd Pen-y-groes. Mae'r datblygwr wedi brathu eto: ar ddarn o'm gorffennol i.

Dynion oedd yn gyrru'r digars. Mor debyg i mi. Mor ddinistriol â mi. Ac wrth wylio'r peiriannau'n poeri a thuchan eu dirmygedd ar f'atgofion, mae dagrau'n cronni'n fy llygaid. Y llygaid sy'n syllu mewn anghredinedd wrth wedl diflaniad cyfnod. Diflaniad pennod o'r stori — sylfaen Y Stori.

* * * *

Daeth llais y casglwr ticedi i dorri ar y dagrau di-sŵn:

'Leaving London, sir?'

'Yes, I'm going home you know,' medda finna'n sych.

'Well, you know what they say: home is where the heart is.'

'Yes.'

Saib am hir iawn, ond fe wyddwn mai ond ychydig eiliadau oedd wedi pasio pan siaradodd eto:

'And where is that, sir?'

'What?'

'Home, sir.'

'North Wales,' medda finnau, heb yr amynedd i fynd i egluro daearyddiaeth Arfon a Dwyfor i ryw bwt o bortar.

'Oh!' siomedig.

* * * *

'Peth crwn di o,' meddai rhyw lais bach y tu mewn i minnau. Crwn fel y byd; fel pêl-droed, polo mint a dônyt. Crwn fel twll.

Daeth rhyw ias anghyfarwydd drostof wrth i mi sylweddoli 'mod i wedi dianc o'r *râs wyllt atomig.* Oedd, 'roedd Mathonwy Huws wedi bod yn 'rysgol hefo'm hynafiaid. Fel pob mab afradlon, daeth hiraeth dros y dyn busnes hwn. Angen greddfod i olrhain dyddiau hirfelyn plentyndod — y gwynfyd pell a gefnais arno yn nyddiau llencyndod.

* * * *

'Doedd y lowts ddim yn gwybod eu geni: roedden nhw'n llawn cynlluniau am adael y 'twll o le' yma a mynd am dro i chwilio am strydoedd aur y ddinas. Pe bydden nhw ond yn gallu gwrando ar gyngor hen 'bwffdar' fel fi, ac yn dysgu o gynnwys y câs briff lledr fod eu gwreiddiau yn bwysicach iddyn nhw nag i amsugno dŵr o'r pridd. Ein gwreiddiau yw ein hunig angor ym môr y newid a ddaw i ddymchwel ein cofgolofnau.

Cyrraedd adref i sŵn newid a wnes y noson honno: i hunllef datblygiad. Na, tydw i ddim wedi gwyro i'r chwith na dim byd felly — gwn fy mod wedi 'mhlannu yn ôl mewn pridd cyfarwydd.

Yn well na dim, do, fe gefais flas ar y ddônyt, a blasu'r jam sy'n melysu pob llwyddiant. Gwrthodais fy rhyddid, medd rhai, ond fe enillais lawer iawn yn fwy wrth gael dychwelyd i fam 'ma. Adref.

Hoffai'r golygyddion ddiolch i swyddogion yr Eisteddfodau am anfon y manylion a'r cynnyrch i'w cyhoeddi. Edrychwn ymlaen i'w cyhoeddi eto y flwyddyn nesaf. Beth am fanteisio ar yr ECO i gyhoeddi manylion ymlaen llaw — rhestr testunnau efallai.

Taith Ysgol Fythgofiadwy

'Deffra, mae'n rhaid i ti fynd i'r ysgol,' gwaeddodd mam. O na,' meddwn wrth fy hun. Ond cofiais ein bod yn mynd ar drip i Amgueddfa Werin i weld hen dai ac ysgolion a chapeli. Ar ôl newid rhedais i lawr y grisiau, cael tamaid o frecwast ac i ffwrdd a fi am yr ysgol.

Yn yr ysgol roedd pawb yn gynhyrfus. Roedd disgwyl am y bws fel awr gron. Ond o'r diwedd fe gyrhaeddodd. Baglodd pawb i mewn iddo. Roedd popeth yn bendramwnwgl. Ond ar ôl ychydig o weiddi gan Mr Jones roedd pawb yn eistedd mewn sedd gyda phartner, yn corddi o'r tu fewn methu a disgwyl i gyrraedd.

Cyrhaeddom o'r diwedd yn llawen ac yn hapus. 'Reit blant,' gwaeddodd Mr Jones. 'Gwrandewch yn astud i chwi gael gwybod ym mha grŵp y byddwch chi ynddo.' Yna dechreuodd weddi'r enwau. Roeddwn i yn grŵp Mr Jones gyda Nerys fy ffrind pennaf, Owain, Gareth ac un neu ddau arall.

Tŷ oedd y cyntaf a wnaeth ein grŵp ni ymweld ag ef. Tŷ coch tywyll. Dywedodd Syr mai arwydd i gadw'r gelynion i ffwrdd oedd y lliw coch llachar. Roedd llawer ystafell ynddo, yn llawn o hen ddodrefn.Roedd arogl mwg drwy'r tŷ, llawr moel, to gwellt a ffenestri yma ac acw.

'Syr, a gawn ni fynd i weld y capel?' gofynnodd Gareth. Cytunodd Syr ac i ffwrdd a ni yn hamddenol tuag at y capel. Pwlpud bach oedd yno. A llawer o gadeiriau, gwahanol iawn i'r un sydd gennym ni ar hyn o bryd.

Daethom allan o'r capel. Dechreuom flino gyda'r holl waith cerdded. 'Beth am fynd i weld yr ysgol cyn cinio,' meddai Mr Jones. 'Oes yna lawer o waith cerdded?' gofynnodd Nerys. 'Nag oes siwr, dewch.' Felly roedd rhaid i ni fynd. Hefo'r bag trwm ar ein cefn yn llawn o fwyd roeddem wedi blino'n lân.

Fi oedd y diwethaf i gyrraedd yr ysgol. Ond y munud y rhoddais fy nhroed tu fewn i iard yr ysgol, mi gefais gur yn fy mhen a dechreuais droi o gwmpas fel chwrligwgan. Yn sydyn stopiais yn stond. Sylweddolais nad oedd fy mhecyn ar fy nghefn, ond beth oedd gennyf ond rhyw dun o fwyd a rhywbeth bach i'w yfed o dan fy mraich. Roeddwn wedi newid o'm dillad i ryw hen lifrau tywyll. Roedd fy ngwallt mewn plethan hir. Roeddwn yn dechrau poeni. Meddyliais, tydw i ddim wedi newid i'r hen oes pan oedd yr ysgol yn agored? Roeddwn wedi dychryn am fy mywyd.

Cerddais yn araf i'r ysgol. Roedd cyntedd bach. Roedd rhyw hysbysebion ar y waliau fel, 'A ydych wedi dysgu eich tablau?'

Cymerais gam at y drwm oedd o'm blaen. Nid oeddwn yn gwybod beth i'w wneud, ai cnocio ai agor y drws a mynd i mewn. Cnocio a wnes yn y diwedd. 'Pwy sydd yna,' meddai hen lais uchel a chas.

Agorais y drws yn araf. Pan agorais y drws dychrynais gan ateb yr athro. 'O, helô Beti, rwy't ti'n hwyr iawn heddiw, eistedd i lawr a gwranda.'

Argol, roedd o'n fy naod i, ac yn fy ngalw i'n Beti. Edrychais o'm cwmpas, roedd y plant eraill wedi eu gwisgo yn union yr un fath â mi. Lifrau'r genethod oedd ffrog hir o frethyn trwchus llwyd, a barclod gwyn. Roedd yr hogiau mewn trowsus melfared a gwasgod dywyll. Roedd llawer o ddesgiau a bwrdd du yn yr ystafell hefyd. Gwisgai'r athro het ddu sgwâr a chlogyn hir. Rwy'n siwr fy mod wedi gweld rhyw debrygrwydd i Mr Jones yn yr athro hwn. 'Wel, ydych chi am eistedd i lawr Beti?'

Cerddais yn araf at y ddesg wag agosaf. Eisteddais i lawr a rhoi fy nhun a diod o dan y ddesg. Roedd pawb yn ysgrifennu ar lechen. Rwy'n meddwl mai'r wers bore oedd tablau. Roeddwn yn gorfod eu dweud yn uchel. Tueddiad yr athro oedd i siarad Saesneg.

Ar ôl diweddu'r wers canodd Syr y gloch fawr arian. Nid oeddwn yn gwybod beth i'w wneud nesaf. Cododd pawb a rhoi eu cadeiriau o dan y bwrdd. Gafaelais yn fy nhun bwyd a dilyn y lleill allan. Gwaeddodd Syr wrthym am fynd adref i fwyta ein bwyd. Ond y munud rhoddais fy nhraed allan o'r giât fe gefais gur yn fy mhen eto a dechreuais droi rownd a rownd. Yn sydyn stopiodd yr holl beth. Teimlais rywbeth yn drwm ar fy nghefn, roedd fy mag yn ôl ac roeddwn yn ôl yn fy nillad arferol.

Wrth sefyllian yn meddwl beth i'w wneud, clywais Mr Jones yn gweiddi, 'Dewch blant, mae'r bws ar gychwyn adref.' Cerddais yn araf at y bws. Dringais y grisiau mewn penbleth. Edrychais ar Syr ac fe winciodd o arna i. Ys gwn i pam!

EISTEDDFOD BENTREF DINORWIG

Y Beirniaid oedd — Adrodd a Llên: John Ogwen; Cerdd: Geraint Jones; Adran y Plant a Celf a Chrefft: Alison Williams; Coginio: T. A. Parry. Cyfeiliwyd gan Annette Bryn Parri ac Olwen Roberts a'r arweinyddion oedd Rennell Williams a Glyn Tomos.

Diolchir i'r canlynol: Mr a Mrs Arnold Morris, Llechwedd, Deiniolen, am y Tlysau; John Morris; Emyr a Rhiannedd Griffith; Sara a Rita Wood; Hannah Roberts a Staff Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen.

Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod:

CYSTADLAETHAU LLWYFAN. Unawd dan 5: 1, Manon Jones; 2, Lois Jones, Rhian Morris a Sioned Phillips; 3, John Jones a Donna Phillips. **Unawd dan 6:** 1, Heledd Parri; 2, Ceri Morris. **Unawd dan 9:** 1, Rhian Meleri; 2, Trystal Ellis Morris; 3, Ffion Haf a Carol Jones. **Adrodd dan 5:** 1, Ynyr Parri; 2, Donna Phillips; 3, pawb arall. **Dan 6 oed:** 1, Heledd Parri; 2, Ceri Morris. **Dan 9 oed:** 1, Trystan Ellis Morris; 2, Rhian Jones; 3, Julie Ann. **Dan 12:** 1, Alaw Mari; 2, Sian Evans; 3, Jennifer Coreless. **Offerynnol: Unawd ar unrhyw offeryn — oed Ysgol Gynradd:** 1, Jenny Lynne; 2, Gethin Williams ac Arwel Williams. **Ysgol Uwchradd:** 1, Michael Jones. **OEDOLION. Deuawd** Hunan-ddewisiad: 1, Ifan Bryn Roberts a Betty Roberts; 2, Elfed ac Annette; 3, Annette a Betty. **Unawd:** 1, Elfed Morris ac Ifan Bryn Roberts. **Canu Carioci:** 1, Annette; 2, Tomi Arfon Parry. **Band Cegin:** 1, Gwerin y Coed; 2, Parti Sara a Band Sardis. **Côr Cathod neu Gŵn:** 1, Parti Cathod Sardis; 2, Parti Cathod Olwen.

CYSTADLAETHAU CARTREF. Gorffen Limrig: 1, Hugh Jones; 2, Alice Myfanwy Griffith; 3, Ellen Wyn Jones, Meri Wyn a John. **Llinell Goll:** 1, Ellen Wyn Jones; 2, Megan Morris, Hannah Roberts, Meri Wyn a John; 3, Meri Wyn a John. **Creu Brawddeg o'r geiriau POBOL Y CWM:** 1, Hugh Jones; 2, John Griffith; 3, Gwen Griffith. **Dyddiadur Wythnos 'Ciosg' neu 'Cysgodfan Bws':** 1, Ellen Wyn Jones; 2, Alice Myfanwy Griffith; 3, Megan Morris. **Dwy neu dair o straeon, troeon trwstan neu jôcs yn ymwneud â phêl-droed:** 1, Meirion Thomas, Andrew Griffith. *ADRAN Y PLANT. Arlunio, dan 6:* 1, Lynette; 2, Aletea; 3, Donna Lewis. **Dan 7:** 1, Ben Williams; 2, Gethin James; 3, Rhian Wyn Morris. **Dan 9:** 1, Michelle Spaini; 2, Kelly Davies; 3, Carol Jones. **Dan 11:** 1, Beverley; 2, Gethin; 3, Zoe Anderson. **CELF A CHREFFT. Model yn defnyddio defnydd gwastraff:** 1, Ceri Morris. **Tlywaith neu declyn i'w roi ar ddesg:** 1, Zoe Anderson; 2, Elfed Morris. **Adeiladu Cwch:** 1, Dafydd Morris; 2, Zoe Anderson a Joseph Anderson.

Gorffen limrig (o eiddo Hugh Jones, 6 Rhes Faenol, Deiniolen):

Ar y ffordd wrth ymyl Dinorwig
Fe goflais bod hi'n amser fy ffisig
Pum munud ar y wal
Dew fedrwn i ddim dal
Daeth trwydda i fel express i'r Amwythig.

Dwy neu dair o straeon, troeon trwstan neu jôcs yn ymwneud a phêl-droed:

Glywsoch chi am dîm pêl-droed Llanberis yn ystod y pumdegau yn gwahodd chwaraewr o'r Rhyl i ymuno a'r tîm. Enw a roddwyd i'r tîm yr deg honno oedd 'Y Teigars'. Cefnogwyr tîm Llanrug, y plwyf agosaf, oedd wedi clywed am y 'boy Rhyl' yma. Ei enw oedd 'Coffin'.

Nid oedd diwedd ar ganmoliaeth medr y dyn yma yn ôl tîm Llanrug. Bu disgwyl eiddgar am ei weld a phan ddaeth gêm rhwng Llanberis a Llanrug ar un pnawn Sadwrn, rhaid oedd i Lanberis ei fachu. Aeth cadeirydd y cefnogwyr i'w gyfarfod hanner ffordd a gwneud ffws ohono. Pan ddaeth ar y cae fe dderbyniodd gymeradwyaeth fyddarol. Roedd yn ŵr ifanc a thal.

Ond y fath siom! Ni allai gicio'r bêl o gwbl. Codai fwy o dywyrch â'i draed na'r un Jac Codi Baw gyda'i gicio. Ni allai, medda nhw, a chau ei esgidiau yn iawn!

Gwridai cefnogwyr Llanberis tra crechwenai cefnogwyr Llanrug. Colli fu hanes 'Y Teigars' ac ymateb y dorf oedd mai mewn arch y dylai y 'boi Rhyl' fod.

ANDREW GRIFFITH — 1af

Bron ar ddiwedd gêm pêl-droed gyda tîm Deiniolen ar y blaen o ddwy gôl i un. Un o gefnogwyr brwd a swnllyd Deiniolen yn poeni rhag i'r tîm arall ddod yn gyfartal ac yn gweddi ar y reff:'

'Chwytha'r bib reff — ydi dy wats di wedi stopio?

A'r reff yn ateb: 'Tydi dy geg di ddim!'

MEIRION THOMAS — 1af

Llinell Goll (o eiddo Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog):

'Beth am sws fawr wlyb?' medda Wmffra
Wrth Jên Ann, yr hen ferch drws nesa
'Ga'i ddod acw tua tri?' 'Yli was,' medda hi,
'Dyn glo fydd'ma dri, tyrd yn bora.'

Creu brawddeg o'r geiriau 'Pobol y Cwm' (o eiddo Hugh Jones, 6 Rhes Faenol, Deiniolen):

Peth Od Bod Olga Lafinia Yn Canlyn Wil Mul.

Y GÊM

Aeth Dad a fi un diwrnod
I Lerpwl bell i wylio
Y tim pêl-droed gorau erioed
Am gicio pêl a sgorio.

Breuddwydiais fwy nag unwaith
Fod Dad wedi mynd a fi ymaith,
Ond ni freuddwydiais i erioed
Y buaswn yno yn naw mlwydd oed.

Crysau coch yn mynd ar wib,
Dim i'w rhwystro ond y bib,
Y crysau glas yn trio'i gorau
Ond ein tîm ni yn iwsio'i pennau.

Roedd fy arwr i yno
Wna i byth ei anghofio!
Roeddwn i yno
Pan wnaeth RUSH sgorio!

A dyma' r dor yn mynd o'u co,
A Dad a finnau yn ein tro,
A phawb yn neidio i fyny ac i lawr
A finnau'n boddi ynghanol dynion mawr.

Pawb ar binnau o hyn ymlaen
Rhag i'r gelyn fynd ar y blaen,
Y Reffari a'i bib yn ei geg
Yn barod i'w chwytthu ar ôl chwarae teg.

Ac yna dyna'r gêm ar ben
A phawb yn gweiddi nerth eu pen,
A minnau yno — ynghanol y sbri
O diolch, Dad, am ddod a fi.

JENNIE LYN MORRIS, 10 oed

Dyma ran o ysgrif bortread Sian Elen Tomos yn sôn am FY ARWRES

Enw gwirion yw Ffinelesta i chi, mae'n siwr, yn arbennig os dywedaf mai enw merch ifanc bedair ar ddeg oed ydyw! Dyma fy arwres i. Ia, Ffinelesta. Cafodd Ffinelesta ei geni yn ur un lle â mi, sef Ysbyty Dewi Sant, ym Mangor. Mae Ffin yn hoffi, neu wrth ei bodd ddylwn ddweud, helpu pobl eraill.

I mi, a llawer ohonoch chi, 'number one' sydd angen edrycn ar ei ôl gyntaf, ond i Ffin pawb *ond* 'number one' sydd gyntaf. Rwy'n siwr nad fi yw'r unig un ym mhentref Trewen sy'n edrych ar Ffin fel arwres.

Un o'r rhesymau pam yr wyf yn cyfri fy ffrind Ffin yn arwres yw ei bod yn brysur trwy gydol y dydd, ddiwrnod ar ôl diwrnod, wythnos ar ôl wythnos. Nid wyf yn cofio'r pum munud diwethaf a gafodd hi iddi ei hun. Ar ddydd Sul, mae'n codi tua wyth, brecwast sydyn, yna mynd o amgylch byngalos hen bobl yn Rhydfadog efo'r *Sunday Times*. Ar ôl bod yn nhŷ pawb, rhedeg adref â'i bochau mor biws â dau domato coch. Yna dod allan o'i thŷ gyda llyfr emynau. Rhedeg heibio eto, ac i Gartref yr Henoed yn Ty'n Isaf. Fe fydd yn chwarae'r organ i'r henoed. Un neu ddwy o emynau, a nhw yn canu. Ar ôl bod yn y fan'no am dros ddwy awr a hanner, cael paned o goffi? O na, ddim Ffin! Ymlaen â hi i dŷ ei Modryb Elin sydd wedi dal y ffliw! Mynd yno gyda dwsin o fins peis, aros yn fan'no am dros ddwy awr yn clebran a holi fel llond sach o ieir. Yna gorffen pnawn o helpu trwy ddod i fy nôl i er mwyn i ni gael mynd i'r eglwys. Cymer Ffin ran yn y gwasanaeth bob Sul. Weithiau fe fydd hi'n darllen llith, a thro arall adnod, a phan fydd yr organyddes yn sâl, fe fydd Ffin yn chwarae'r organ.

Yna dydd Llun mwy na digon o waith. Weithiau anghofia Ffin wneud ei gwaith cartref ei hun gan iddi wneud fy ngwaith i rhag i mi gael ffrae. Pwy arall fydde'n gwneud peth mor ffôl â hyn meddech chi? Gyda'r nos mae cyfarfod CND yn y Neuadd Wen. Er mai Ffin yw'r aelod ieuengaf yn y Clwb, hi gafodd ei dewis yn ysgrifenyddes. Nid yw'n gwybod ystyr y geiriau 'blin a chas ac annifyr', ar wahân i ddechrau bod yn flin wrth weld rhywun yn taflu sbwriel i'r afonydd neu ar y lôn pan mae yno fun sbwriel.

Ysgol eto ddydd Mawrth. Yna gyda'r nos cynhelir Urdd Sant Ioan eto yn y Neuadd Wen. Mae Ffin a finnau bellach wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers pedair mlynedd.

EISTEDDFOD DINORWIG

Rhywfaint o hwyl y cystadlu.

Rhai o'r cystadleuwyr ieuengaf.

EISTEDDFOD WAUNFAWR

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus eto eleni gyda chystadlu brwd — yn enwedig gyda'r plant yng nghyfarfod y prynhawn. Y beirniad oedd — Adrodd: Mr Gwyn Parri, Deiniolen. Cerdd: Mr John Eifion Jones, Caernarfon. Gwyddor Tŷ: Mrs Gillian Jones, Rhiwlas. Ffotograffaeth: Mr Islwyn Jones, Llanrug. Gwaith Coed: Mr Tom Thomas, Waunfawr.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb am helpu yn ystod y diwrnod ac i bawb a gefnogodd yr Eisteddfod. Dyma'r canlyniadau:

Cyfarfod y Prynhawn. Adrodd — Dosbarth yr Hafod: 1, Nia; 2, Wenna; 3, Beth a Bethan. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Anna; 2, Cathryn; 3, Ioan. **Oed Meithrin:** 1, Arawn; 2, Deion; 3, Dafydd. **Safon 1 a 2:** 1, Ifan Glyn. **Safon 3 a 4:** 1, Lowri; 2, Sioned. Parti Adrodd: 1, Parti Lowri; 2, Parti Iolo. **Canu — Dosbarth yr Hafod:** 1, Nia; 2, Bethan; 3, Beth. **Oed Meithrin:** 1, Arawn; 2, Alun a Dafydd; 3, Sion, Afydd a Hefin. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Ioan; 2, Anna a Cathryn; 3, Elin ac Elgan. **Safon 1 a 2:** 1, Ifan Glyn. **Safon 3 a 4:** 1, Sioned; 2, Lowri; 3, Steffan. **Deuawd:** 1, Sioned a Ffion. **Unawd Recordydd Safon 1 a 2:** 1, Ifan Glyn. **Unawd Piano Safon 1 a 2:** 1, Ifan Glyn. **Cân Actol oed Meithrin a Babanod:** 1, Picnic y Tedi Bears; 2, Bwgan y Brain. **Unawd Recordydd Safon 3 a 4:** 1, Sioned; 2, Lowri. **Parti Recorders:** 1, Parti Aled; 2, Parti Osian. **Cân Actol neu Sgets Safon 3 a 4:** 1, Y Doctor; 2, Gwyliau; 3, Y Bwji. **Unawd Llinynnol:** 1, Lowri; 2, Steffan. **Parti Dawnsio Gwerin:** Parti Osian; 2, Parti Helen. **Unawd Offeryn Chwyth:** 1, Osian; 2, Elin a Sioned; 3, Iolo ag Aled. **Parti Canu:** 1, Parti'n Hogiau; 2, Parti'r Genod. **Grŵp Offerynnol:** 1, Iolo ac Eleri; 2, Carol Ann, Fiona ac Aled. **Parti Dawnsio Disgo:** 1, Parti Elin; 2, Yo Yoters; 3, Parti Emma. **Unawd Piano Safon 3 a 4:** 1, Lowri; 2, Sioned; 3, Steffan.

Llên. Safon 1: 1, Fiona; 2, Gareth; 3, Erica. **Safon 2:** 1, Ifan Glyn; 2, Sioned; 3, Keistian. **Safon 3:** 1, Sioned; 2, Llion; 3, Steffan. **Safon 4:** 1, Lowri; 2, Helen; 3, Victoria. **Dyfalu faint o eiriau o'r gair PANTOMEIM:** 1, Lowri a Sioned.

Gwaith Llaw. Dosbarth yr Hafod: 1, Gavin; 2, Dylan a Guto; 3, Wenna a Mair. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Yasmin; 2, Sarah a Cathryn; 3, Ioan. **Safon 1:** 1, Ben; 2, Sarah; 3, Fiona. **Safon 2:** 1, Samantha: 2, Laura; 3, Sioned. **Safon 3:** 1, Lisa; 2, Victoria; 3, Jmee a Sioned. **Safon 4:** 1, David a Lowri; 2, Elin; 3, Victorial. **Arlunio. Oed Meithrin:** 1, Alun a Lesley; 2, Sophie a Clare; 3, iwan a Dafydd. **Dosbarth yr Hafod:** 1, Iwan; 2, Emma a Ieuan; 3, Bethan ag Owain. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Liam; 2, Sara a Max; 3, Iwan ag Anna. **Safon 1:** 1, Thomas; 2, Fiona; 3, Ben. **Safon 2:** 1, Wayne; 2, Christina ag Alister; 3, Samantha. **Safon 3:** 1, Steffan; 2, Sioned; 3, Steven. **Safon 4:** 1, Marek; 2, Helen; 3, Lowri.

Cyfarfod y nos. Unawd Offeryn Chwyth Bl. 1, 2 a 3: 1, Kristy; 2, Llio; 3, Bethan a Manon; 4, Gareth. **Unawd piano Bl. 1, 2, 3:** 1, Llio; 2, Manon; 3, Derfel. **Unawd Llinynnol Bl. 1, 2, 3:** 1, Derfel. **Unawd dan 19:** 1, Nerys; 2, Catrin. **Unawd Cân Werin:** 1, Sioned; 2, Manon. **Parti Canu:** 1, Parti Neithiwr. **Unawd Piano dan 19:** 1, Catrin. **Unawd Offeryn Llinynnol dan 19:** 1, Catrin. **Deuawd dan 19:** 1, Nerys a Sioned. **Grŵp Offerynnol dan 19:** 1, Llio a Heddus. **Grŵp Pop:** 1, Almanac; 2, Jina & Co.; 3, Puncs. **Cân Werin dros 19:** 1, Nan Wyn. **Emyn dros 50:** 1, Humphrey. **Unawd Gymaeg Agored:** 1, Eurwyn; 2, Humphrey. **Deuawd Agored:** 1, Jina a Catrin; 2, Carys a Bethan. **Cân Actor Agored:** 1, Yr Hen Stegars.

Adrodd. Darn a roddir ar y pryd: 1, Llio; 2, Bethan; 3, Elain a Kristy; 4, Gwenno. **Darn heb ei atalnodi, agored:** 1, Nan; 2, Bethan; 3, Kate a Jina. **Parti Adrodd:** Parti Ni. **Adrodd Agored:** 1, Jean.

Llên Agored. Hunangofiant Botwm: 1, Robart; 2, Bethan; 3, Bethan. **Parodi:** 1, Elwyn Griffiths. **Llinell Goll:** 1, Elwyn Griffiths; 2, Robart; 3, John Jones. **Brawddeg o'r gair GROESLON:** 1, John Jones; 2, Elwyn Griffiths; 3, John Jones. **Llên Blwyddyn 1, 2, 3:** 1, Gareth.

Gwaith Coed Blwyddyn 1, 2 a 3: 1, Huw; 2, Gerallt; 3, Lowri. **Bl. 4, 5:** 1, Deian a Ceirion. **Arlunio Bl. 1, 2, 3:** 1, Kevin; 2, Gerallt; 3, Derfel; **Bl. 4, 5:** 1, Deian. **Model o wastraff:** 1, Ffion; 2, Dylan; 3, Mathew.

Coginio. Bl. 1, 2, 3: 1, Gareth; 2, Gerallt; 3, Bethan. **Agored:** Jam — 1, Beryl; 2, Llinos. Jelli — 1, Aelodau Antur Waunfawr; 2, Jill. Teisen Siocled — 1, Llinos; 2, Joy Glyn. Rum Truffles neu Fudge — 1, Llinos; 2, Beryl; 3, Heulwen a Joy. Chutneys — 1, Aeldau Antur Waunfawr; 2, Llinos; 3, Alma.

Gwau Agored. Siwmper Motif i blentyn: 1, Llinos. **Siwmper i ffitio'r ymgeisydd:** 1, a 2, Elena; 3, Barbara a Llinos. **Gwnïo Agored:** 1, Rhian Evans. **Arlunio Agored:** 1, Robart; 2, Ellis Lloyd; 3, Robart. **Caligraffi:** 1, a 2, Jean Jones. **Ffotograffaeth:** 1 a 2, Alfie Jones; 3, Heulwen Huws. **Sleidiau:** 1, Duncan Brown. **Enillwyr y Sgwariau:** £50: Delyth Prys, Rhiwlas; £30: Llidiart Wen, Waunfawr; £20: Nan Roberts, Waunfawr.

Agored

HUNANGOFIANT BOTWM

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, cofia am yr amaethwr tlawd sydd angen dŵr i'w dir. Gweddïwn i Ti heddiw am wlaw er mwyn . . . O! Helô. Y chi sydd wedi dod draw i glywed hanes fy mywyd? Iawn 'ta.

Wel, mi ddechreua i drwy ddweud fod botymau yn hollol wahanol i blant. Pan fo plentyn yn cael ei eni mae'r llinyn sy'n cysylltu ef a'i fam yn cael ei dorri, ond yn achos botwm yr adeg y bydd yn cael ei gysylltu a'r dilledyn cyntaf yw adeg ei enedigaeth. Er ei fod wedi cael ei greu yn gynharach, tydi botwm ddim yn dechrau anadlu hyd nes y bydd yr edau gyntaf yn rhedeg trwy ei dyllau.

Y peth cyntaf i aros yn fy meddwl felly yw teimlo rhywun yn gwthio nodwydd ac edau i fyny ac i lawr trwof, a chanfod fy hun ar safle'r botwm isaf ym malog rhyw drowsus bach llwyd. Ychydig o ddyddiau yn ddiweddarach bu i'r trowsus gael ei osod yn daclus ar 'hanger' mewn siop ddillad, ynghyd â nifer o drowsusau eraill o'r un math. Trowsus ysgol ydoedd erbyn gweld, ac fe fu tri neu bedwar o hogia oddeutu dengmlwydd oed, yn trio'r trowsus amdanynt, o dan oruchwyliaeth eu mamau, nes i'r trowsus o'r diwedd ffitio'n daclus am ben ôl Dafydd Tŷ Pella. Gwyliau'r haf ydoedd, ac fe adawyd y trowsus mewn dror yn Nhŷ Pella am rhyw dair wythnos nes i'r ysgol agor unwaith eto.'

Bu'r trowsus gan Dafydd *('off and on')* am tua blwyddyn, ond bywyd digon segur gefais i oherwydd na fyddai Dafydd byth yn agor y ddau fotwm isaf. Gallai lithro i fewn yn braf drwy agor y tri botwm uchaf yn unig. Y flwyddyn honno 'roedd y rhan fwyaf o hogia'r ysgol yn gwisgo trowsusau hefo 'zip' arnynt, ac mi fyddai'r hogia balog botymau yn ei chael hi'n ddigon caled oherwydd y tynnu coes. Digwyddai Dafydd eistedd yn y ddesg agosaf at fab i reolwr banc. Bachgen wedi ei ddifetha oedd hwn, yn berchen trowsus hefo 'zip' arno ac yn un o'r rhai fyddai yn pryfocio fwyaf ar Dafydd. Un diwrnod 'roedd Dafydd wedi mynd i'r lle chwech, ac wrthi'n gwneud patrymau gwlyb ar y lechen o'i flaen, pan gerddodd mab y bancar i mewh, yntau hefyd eisiau taro dŵr.

'Helô, Buttons,' meddai wrth Dafydd. 'Sut mae Sinderela heddiw?'

Ni ddywedodd Dafydd yr un gair wrtho, ond darfod ei orchwyl yn ddistaw, cau ei hun i fyny a chychwyn allan. Fel yr oedd yn cyrraedd y drws clywodd andros o sgrech y tu ôl iddo, 'roedd mab y banc yn sownd yn y 'zip'.

'Sinderela ddeudest ti?' meddai Dafydd wrtho, 'mi wyt ti'n ddigon o bantomeim dy hun.'

Yr haf nesaf bu i'r trowsus ddarfod ei oes, ond achubwyd ni'r botymau. Cefais i ddyrchafiad i fod y botwm uchaf ar falog Ned, brawd rhyw ddwy flynedd yn hyn na Dafydd. 'Roedd Ned yn un drwg am gnoi ei ewinedd, ac o ganlyniad 'roedd agor ei falog yn peri cryn boen iddo oherwydd fod pennau ei fysedd yn gignoeth. Tueddai Ned felly i beidio ag agor y botymau fesul un, ond yn hytrach rhwygo ochr dde'r trowsus oddi wrth yr ochr chwith. Rhoddai hyn gryn straen arnom ni'r botymau, a gwyddwn y byddwn i a'r trowsus yn ffarwelio mewn cyfnod byr. Ychydig cyn y Nadolig digwyddodd yr anocheladwy. Wedi cyrraedd adref o'r ysgol un noson rhedodd Ned i fyny'r grisiau i'w ystafell a rhuthro allan o'i drowsus. Teimlais yr edau yn rhoi, a chanfyddais fy hun yr ochr arall i'r ystafell wedi gwneud mwy o 'somersaults' na wnaeth Olga Korbut erioed, i gyrraedd y fan. Rowliais yn araf o dan y wardrob, ac yno y bum nes i Mrs Jones roi 'spring-clean'. Wedi gauafu fel draenog, cefais fy rhoi mewn tun, ynghyd ag amrywiaeth o fotymau eraill na fu i mi eu cyfarfod gynt.

Cyfnod digon annifyr oedd y misoedd a dreuliais yn y tun. Mae botymau balog yn cael eu hystyried gan fotymau eraill yn rhai o ddosbarth is. 'Dwn i ddim pam fod hynny'n bod, mae cyfrifoldebau botymau balog yn dipyn mwy na botymau eraill, heblaw efallai am fotymau blows merch fynweslawn. 'Does dim byd gwaeth na gweld botwm crys yn edrych i lawr arnoch, a chwithau yn gwybod yn iawn fod y geiriau, 'botwm crys' yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddirmygus gan bobl.

O'r diwedd cefais adael y tun, a chael fy ngosod ar drowsus Richard Jones, tad yr hogia, er mwyn cynnal ei fresus. Tydi'r ffaith fod botwm wedi dechrau ei yrfa ar falog ddim yn golygu fod rhaid gwneud hynny am byth. Hen drowsus gwaith digon blêr a charpiog ydoedd, fodd bynnag, ac ar ddechrau'r gaeaf fe'i trosglwyddwyd i blant y pentref. Pan ddechreuon stwffio gwellt i lawr y coesau gwyddwn mai bod yn drowsus i'r Guto Ffowc oedd ei dynged anffodus, ac y byddwn innau yn cael fy llosgi, a dioddef marwolaeth hir a phoenus.

Wel, dyma ni. Tachwedd y pumed wedi cyrraedd. Cefais i, a'r gweddill o'r Guto, ein gosod mewn cadair, ar ben twmpath o hen bapurau, bocsus a choed. Gallwch ddychmygu pa mor ddigalon y bûm dros y dyddiau diwethaf, ond ychydig funudau yn ôl codwyd fy nghalon. Cyrhaeddodd Richard Jones, a mynnu fod y plant yn tynnu'r Guto Ffowc i lawr oddi ar y gadair. Byr iawn oedd oes y llawenydd, fodd bynnag, dim ond eisiau chwilio drwy'r pocedi, rhag ofn fod yna bres yno oedd yr hen Jôs. Rêl ffarmwr. Gosodwyd ni yn ôl yn y gadair, ac, fel y gwelwch mae'r amser bron i ben. 'Does ond un peth i'w wneud.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, os na chawn ni wlaw yn yr eiliadau nesaf mae am fod yn anobeithiol.

DRWS STABAL

(Robart Williams)

Yn yr atodiad yma cawsom y cyfle i roi sylw i eisteddfodau Deiniolen, Dinorwig a'r Waunfawr, ac yn ystod y misoedd diwethaf cawsom y cyfle hefyd i roi sylw i eisteddfodau pentrefi eraill y fro. Hoffem ddiolch i'r holl unigolion sydd wedi cyfrannu at drefnu'r holl weithgareddau a'u hatgoffa i anfon gwybodaeth am drefniadau eisteddfodau 1993 atom. Rydym bob amser yn falch o roi sylw iddynt. Pwy a wyr efallai cawn roi rhywfaint o sylw i eisteddfod Llanberis y flwyddyn nesaf!

Safon 1

PERSON ARBENNIG

Mae Anti Lina yn arbennig i fi am ei bod yn gadael i mi fynd yna bob dydd Llun. Mae hi'n hen ac yn garedig i mi ac mae hi'n rhoi jiw jiws i mi bob tro. Mae hi'n byw yn Eilio, mae'n chwarae hefo fi ac mae ganddi gi o'r enw Mops, ac mae Mops yn neidio arnoch ac yn garedig efo plant fel ni. Bob dydd Sul ar ôl mynd i'r eglwys hefo nain a taid dwi'n mynd i'r eglwys hefo hi. Roedd hi'n 61 ar y 5ed o Dachwedd blwyddyn diwethaf. Yr wythnos diwethaf roedd hi'n sâl ac roedd hi eisiau postio rhywbeth ac mi wnes i wneud iddi. A rŵan dwi'n edrych ar ei hôl ho.

Fiona Sanderson

Blwyddyn 1, 2 a 3

Tŷ Ni
Lôn Gron
Bryncoch
Gwynedd
19.10.92

Annwyl Mr Rush,
Helô. Dach'i ddim yn fy nabod i. Walter Tomos yw fy enw (Wali i fy ffrindiau) — gewch chi alw fi'n Wali. Rydw i yn aelod o dîm pêl-droed Bryncoch ac wedi rhedeg y lein iddyn nhw ers . . . blynyddoedd maith.

Rydw i yn cefnogi tîm pêl-droed Lerpwl ers pan oeddwn yn fachgen ysgol a dwi'n meddwl eich bod yn 'centre forward' gorau mae Lerpwl a Chymru wedi gael erioed. Dydi Mr Picton ddim yn cydweld. Mae o'n dweud na dim ond sgorio da chi ar ôl i pawb arall weithio yn galed. Rargo fawr!

Di hynny yn gwneud dim math o synnwyr i mi. A mae mam yn dal i sôn am y gôl wych yna sgorioch yn erbyn yr Alban. Rwyf wedi clywed hefyd eich bod wedi torri record sgorio goliau i glwb pêl-droed Lerpwl. Mi fuaswn wrth fy modd cael cwrdd a chi, ond os nad yw hyn yn bosibl, a fuasech gystal a gyrru llun mawr ohonoch wedi ei arwyddo ganddoch.

Gyda llaw a fyddech cystal a gofyn wrth Graeme Souness os ydy o eisiau dyn bob dim — ddoi ar unwaith.

Cofion gorau,
WALTER TOMOS
(Wali)

Gareth Cadwalader

Safon 3

TU DRAW I'R ENFYS

Un diwrnod mi roeddwn i yn dod adref o'r ysgol pan welais enfys yn yr awyr. Dwedais wrth Ffion, 'Edrycha mae yna enfys yn yr awyr.'

Rhedodd Ffion a fi dros y caeau a dwedodd Ffion wrthyf fi, 'Sioned mi rydan ni bron iawn yna.' 'Da iawn, mi nawni dda l i redeg.' 'Tyrd ta.'

Mewn dipyn dyma ni yn cyrraedd yr enfys. Dwedodd Ffion, 'Edrycha mae yna drysor yn fana.' 'O, gafael yn y trysor a tyrd gyda fi o dan yr enfys,' dywedais i. Pan aethom ni o dan yr enfys mi roedd yna liwiau hyfryd, i ddechrau mi roed yna liw fioled ac yna porffor ac yna glas, ac yna gwyrdd ac yna melyn, ac yna oren, ac yna coch. Edrychais ar Ffion ac yn gwelais ei bod hi wedi troi yn wahanol liwiau.

Edrychodd Ffion arnaf fi hefyd, mi roeddwn i wedi troi hefyd. Edrychais o gwmpas ac roedd popeth yn lliwiau'r enfys. Dwedais wrth Ffion, 'Edrycha mae pawb a popeth yn lliwiau'r enfys.' 'Ydy,' meddai Ffion, 'beth am i ni drio siarad gyda un ohonyn nhw.' 'Ia syniad da,' meddaf fi.

Dywedodd Ffion wrth y creaduriaid. 'Esgusodwch fi plis, wnewch chi ddweud wrthym ni lle ydyn ni?'

'Wel, mi rydych yn gwlad Rwla lliwiau.' 'Croeso,' meddai rhywun arall.

Daeth hogyn bach atom ni ac mi roedd o yn lliwiau'r enfys ac dwedodd.

'Helo bobl, fy enw i yw Cochden, beth yw eich enw chi?'

Wel ein henwau ni yw Sioned a Ffion.'

'Wel dyna enwau rhyfedd, rhaid i chi ddod i tŷ fi i chi cael gweld fy nhad.'

Ar ôl cyrraedd y tŷ dwedodd dad Cochden, 'Pwy ydych chi?'

'W,W,W, Wel ein henwau ni yw Ffion a Sioned.'

'Beth' medd ei dad, 'dydyn ni ddim eisiau plant hefo enwau fel yna, beth am newid eich enwau chi i Orengo a Melyngo?'

'Iawn dad,' medd Cochden. 'Dowch', meddai Cochen. Dwedais i wrth Ffion, 'Orengo beth wnawn ni?' 'Dydw i ddim yn gwybod Melyngo.'

Beth am chwarae Joca-Jocas?' medd Orengo a Melyngo.

'Mae o yn isi-pi-si ychi ddydai wrthych chi i ddechrau mae'n rhaid i chi orwedd ar y llawr a dweud, FALA-Ba-LW yn uchl, ac yna mi rydachi yn codi i fyny a chael ras,' medd Cochden.

'O da,' medd Melyngo a Orengo.

Ar ôl darfod y gêm, dwedodd Orengo, 'pam mae popeth yn lliwiau yr enfys? Mae'r cŵn i gyd a'r tai a'r bobl i gyd.'

Am fod yna ddewin wedi bod yma o'r blaen ac roedd wedi gadael rhywfaint o'r paent, ac roedd pawb wedi gwirioni. Roedd y lle yma yn llwyd i gyd, ac roedd y dewin wedi dweud bod yn dod yn ôl bob mis,' medd Cochden.

'Faint o'r gloch yw hi Cochden?' meddaf fi.

'Coch o'r gloch,' medd Cochden.

'Beth?' medd Orengo.

'O, Orengo, mae gennyt ti oriawr does?'

'Oes,' medd Orengo.

'Faint o'r gloch yw hi,' medd Orengo.

'O, na mae hi wedi pasio chwech o'r gloch , mae'n rhaid i ni fynd rŵan,' meddaf fi.

'Mae'r enfys wedi diflannu fedran ni ddim mynd adref,' medd Ffion.

'O, fedrwch gyda'r ceffylau hud,' medd Cochden.

'O, diolch yn fawr iawn,' medd Ffion a fi.

'Ta-ta,' medd Cochden.

'Ta-ta,' medd Ffion a fi.

Sioned Jones

RHAGHYSBYSIAD

CYNGERDD GŴYL DDEWI
yn THEATR SEILO, CAERNARFON
Nos Wener, 6 Mawrth 1993
BAND TREFOR
LLEISIAU MIGNEDD
HOGIA'R WYDDFA
PARTI CYMERAU
ROSALIND A MYRDDIN

Trefnir gan Bwyllgor Sir Gaernarfon
Cronfa Goffa Saunders Lewis.
Tocynnau: £5
Manylion pellach yn nes ymlaen.

Myra, Humphrey ac Alun gyda'r tlysau a enillwyd ganddynt yn eisteddfodau Llanaelhaearn a Talwrn.

EISTEDDFOD LLANRUG

Yn rhifyn Tachwedd o'r Eco cawsom gyfle i gyhoeddi gwaith Dafydd Whiteside Thomas a Catrin Thomas, enillwyr y Gadair a Thlws yr Ifanc yn Eisteddfod Llanrug. Y beirniad llên oedd y Prifardd Selwyn Griffith ac fe gyhoeddir isod waith rhai o feirdd ifanc llwyddiannus yr Eisteddfod honno.

Y LLEUAD

Gwyn yw'r lleuad
rhoi golau yn y nos
fel y seren dlos
crwn fel cylch
weithiau fel banana
oer oer yn y nos
gweithio fel yr haul
ond yn y nos.

NIA WILLIAMS, Safon 2

LLIWIAU

Saith lliw yr enfys fel pelydr yr haf
A'r lliwiau yn llachar sef coch gwyrdd a glas.
Mae'r wawr wrthi'n torri a melyn yw'r haul.
A'r machlud yn oren mae lliwiau mhobman.

ELIN DAFYDD, Safon 3

Y TRIP

Y bwrlwm
y twrw
y rhuthro
y taro
ac i gyd am ein bod yn mynd am drip

Am redeg
am swnian
am grio
am dishian
ac i gyd am ein bod yn mynd am drip

Y cynwrf
y baglu
y gweiddi
y dadlau
ac i gyd am ein bod yn mynd am drip

Y distawrwydd
y pleser
yr heddwch
yr amser
a phawb wedi bod ar y trip.

EMMA LLOYD DAVIES, Bl.1 (Uwchradd)

RHAGOR O LUNIAU EISTEDDFOD DINORWIG

Rhai o'r plant ieuengaf (ac arweinydd canol oed) ar y llwyfan.

Ceri Morris gyda rhai o'i thystysgrifau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth

BERYL A GWENDA

LLYTHYRDY LLANRUG

Ffôn: C'fon 672422

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

NGHARTREF HENOED

Y Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

TONY, BERYL a STAFF

Tafarn

PENBONT

LLANRUG

Fe rown ichi ein croeso arferol trwy gydol y flwyddyn newydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PETE (COCH) A LIZ

GLYNTWROG

LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr wyl

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH BAWB YN

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 672937

I gael bargeinion drwy'r flwyddyn ymunwch â'ch Co-op lleol – y siop yr ydych chi'n berchen arni.

COFIWCH FOD DIFIDEND O 3c YN Y BUNT I AELODAU'R GYMDEITHAS

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1992
DYMUNIADAU GORAU AM 1993

DIOLCHWN YN GAREDIG IAWN
AM EICH CEFNOGAETH
FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN
A DYMUNWN FEL TEULU
NADOLIG LLAWEN I CHWI OLL A
DYMUNIADAU GORAU AM Y
FLWYDDYN NEWYDD

SIOP a MODURDY
GROESLON MARC
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 672445

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth
Elaine, Wendy, Vera, Lynette a Sarah

Elaine's

LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR

Mawrth	9 - 7.00
Mercher	9- 5.30
Iau	9 - 8
Gwener	9 - 8
Sadwrn	7.30 - 2

Dydd Mawrth a Dydd Mercher i bensiynwyr

Nos Fawrth i ddynion

Coluro ar gyfer achlysuron arbennig

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Ashley a Carolyn Wager
A STAFF
SIOP Y BONT
(SNOWDON STORES)
Pontrhythallt
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon 674472

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 676772

Trin gwallt i bawb o'r teulu gan Jen

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

JONES A PITTS
PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel

GWAITH BRYN AFON
LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth



Y SGWÂR,
LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.
Ffôn:
Caernarfon 672898 (dydd)
Caernarfon 676285 (nos)

CYFARCHION Y TYMOR oddi wrth
GLYN ROBERTS
A'I FAB
DYNION GLO

LLANRUG
Ffôn: 675043
a 672125

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Y Nadolig hwn defnyddiwch
CABS LLANRUG

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
C'FON 675951 **pell ac agos**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA I BAWB

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG
Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

CARTREF
PRESWYL
LLYS EIDDON

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

CYFARCHION Y TYMOR
A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

NEIL A STAFF

y Siop Sglodion

Pontrhythallt
Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

NEWYDD AGOR

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref oddi wrth

ARFON A CARYS

SIOP CHIPS TEGFAN

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
676128

NEWYDD AGOR

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D **L**

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112
Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwyddiannus i bawb oddi wrth

ELWYN HUGHES

CONTRACTOR

PENNANT
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 672156

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

John, Sandra ac Ian Trevor a'r holl staff

Dewch i weld y ceir diweddaraf disel
Peugeot 106 – ceir bach
hynod o fywiog, hynod o fawr

GAREJ HAFOD

LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673372

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: C'fon: 675754
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
673513
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA oddi wrth
Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673574
PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI
CURIAD CALON CYMRU
Enillydd Gwobr Selsig Braster Isel 1992

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Merched y Wawr: Cynhaliwyd y cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd ar Tachwedd 10. Cydymdeimlwyd â Mrs Ellen Thomas a'r teulu yn eu colled.

Y wraig wadd oedd Miriam Jones, Siop y Plas, Caernarfon, a bu'n siarad am emwaith. Soniodd am ei diddordeb mewn casglu gemau o Gymru a bu'n arddangos peth o'i gwaith ynghyd â sgwrs am sut i wneud modrwyau. Cyflwynodd fathodyn arian Merched y Wawr i'r gangen a bydd yr elw o'r raffl, a gynhelir y mis nesaf, am y tlws yma yn mynd at achos da. Diolchwyd iddi gan Sioned Larson. Gwnaed y te gan enethod Penisarwaun a diolchwyd iddynt gan Beryl Thomas. Enillydd y raffl oedd Sioned Larson.

Bydd y Llywydd a'r Ysgrifennydd yn cynrychioli'r gangen yn y Cyngor Cenedlaethol ar 27 Tachwedd yn Aberystwyth.

Byddwn yn dathlu'r Nadolig yn y cyfarfod nesaf, ar 8 Rhagfyr, drwy rannu a blasu yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. Edrychwn ymlaen am gwmni'r holl aelodau.

Gŵyl Gerdd Dant Rhyl a'r Glannau: Llongyfarchiadau i Idwal Williams am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth cyfansoddi dawns werin. Hon yw'r bumed waith iddo ennill y gystadleuaeth arbennig yma yn yr Ŵyl. Dyma'r ail wobr gyntaf iddo ennill eleni gan ei fod wedi bod yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth ym mis Awst. Cafodd yr ail wobr yn y gystadleuaeth honno hefyd. Mae aelodau o Ddawnswyr Caernarfon yn ddiolchgar iddo gan fod rhai o'r dawnsfeydd newydd yma yn rhan o'u cyflwyniadau erbyn hyn.

Plaid Cymru: Er i'r tywydd fod mor anffafriol gydol y dydd fe ddaeth tywydd gwell i ddenu llawer i Ffair Plaid Cymru ar nos Fercher, Rhagfyr 2. Y wraig wadd oedd Miss Megan Humphreys, Tan-y-coed, a braf oedd ei chlywed yn sôn am ei haelodaeth o'r Blaid ers llawer blwyddyn. Roedd Siôn Corn yno hefyd ac yn falch o weld plant mor dda oedd yn Llanrug ac yn addo dod i'r ardal eto noswyl y Nadolig. Enillwyr y raffl oedd — 1, Hamper: Siôn a Guto, Fron Hyfryd Uchaf; 2, Basged o ffrwythau: Ceri Owen, Tŷ Fry; 3, Gwin: Beryl Griffith, Llecyn; 4, Gwin: Irfon Thomas, Buarthau; 5, Hosan Nadolig: Alwyn Jones, Raca; 6, Tegan Meddal: Liz Roberts, London House; 7, Bag teithio: Myfi Roberts, Tai Plas Tirion; 8, Offer glanhau car: Ann Lloyd Griffith, Hawddamor; potel o Smarties: Siân Green, Annedd Wen, Pontrug; pwysau'r gacen: Sharon Blanchard.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd nwyddau a rhoddion at y Ffair, i'r prifathro am ganiatâd i ddefnyddio'r ysgol, i ferched y gegin am roi o'u hamser hamdden i'n helpu ac i'r ofalwraig am ei pharodrwydd i helpu fel arfer. Mae paratoi ar gyfer ffair yn golygu llawer o waith ac ni

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
BRYN A KATHLEEN WILLIAMS
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG
Ffôn: 677482
Gwneuthurwyr ffenestri, drysau ac unrhyw fath o gynnyrch coed

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard , Meirwen a Carolyn
Y STORFA LLANRUG
Ffôn: Caernarfon: 672790
Diolch i chi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Danfonir eich neges am ddim at eich drws (ardal Llanrug); Ffrwythau, Llysiau, Blodau, Nwyddau ac ati

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon Morris a holl staff

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

fyddai'r fenter yn llwyddiant heb gefnogaeth y pentrefwyr ac mae'n diolch yn ddiffuant a chynnes i bawb ohonoch am ein cefnogi unwaith eto, a gyda diolch arbennig i Miss Megan Humphreys am ein hanrhydeddu drwy ddod atom.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Ionawr 13, 1993 yn y Sefydliad Coffa gyda Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr, yn rhoi sgwrs a dangos sleidiau. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod hwnnw.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

Ysgol Llanrug: Erbyn hyn mae tymor ein dau fyfyriwr o'r Coleg Normal wedi dod i ben. Mae'r plant wedi mwynhau eu hunain yn eu cwmni ac wedi cael llawer profiad diddorol iawn ganddynt. Diolch yn fawr iawn iddynt am gyd-weithio mor hapus gyda ni. Pob lwc iddynt yn eu gyrfa yn y dyfodol.

Treuliodd Blwyddyn 6 fore diddorol iawn yn yr Oriel yn Llanberis yn gweld yr arddangosfa 'O Law i Law' ac addurniadau o oes Fictoria.

Bu cryn ddarllen ymysg plant Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 ar gyfer y gystadleuaeth Cwis Llyfrau a gwnaeth pawb eu gwaith yn ardderchog. Cawn wybod yn y dyfodol agos a fydd unrhyw dîm yn ddigon llwyddiannus i fynd ymlaen i'r rownd nesaf. Hei lwc, blant!

Dydd Mercher, 16 Rhagfyr, byddwn yn mynd i gyd i weld y pantomeim 'Blodeuwedd' yn Theatr Gwynedd. Mawr fydd yr hwyl a'r miri. Diolch yn fawr i Gymdeithas Ffrindiau'r Ysgol am eu cyfraniad ariannol tuag at gost y bysiau.

Enillwyr Clwb Cyfeillion yr Ysgol am fis Rhagfyr oedd — Rhif 119: Mrs C. A. Jones, 4 Bryn Afon Terr., Crawia; 146: Sharon Thomas, 47 Bro Rhyddallt; 51: Wavell Roberts, London House; 145: Mrs Meirwen Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn; 41: Mrs Lorraine Roberts, 50 Glanffynnon.

Cynhelir cyngerd Nadolig adran iau yr ysgol, sef sioe gerdd 'Clychau Cantre'r Gwaelod' gan Mrs Eirian Howells, yn neuadd Ysgol Brynrefail, nos Fercher, 9 Rhagfyr, am 7 o'r gloch. Bydd cyngerdd Nadolig y babanod, 'Nadolig y Dyfodol', sgript gan Mrs Gwenifer Robers, nos lau, 10 Rhagfyr yn neuadd yr ysgol. Cawn adroddiad am y ddau berfformiad y mis nesaf.

Yr Urdd: Cafwyd noson lwyddiannus iawn yng Ngala Nofio, dan 12 oed, yr Urdd ym Mangor.

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn unigol ac mewn tîm ras gyfnewid. Oherwydd eu llwyddiant, dydd Sadwrn, 5 Rhagfyr, aeth criw o'r plant i lawr i gystadlu i Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd ym Mhontardawe. Gwnaeth pawb eu gwaith yn gampus yno a llongyfarchiadau penicamp i'r tîm ras gyfnewid genethod dan 12 oed a gipiodd y wobr gyntaf drwy Gymru, sef Elin, Nicola, Ceri a Sian.

Bu criw o Blwyddyn 5 a Mr Williams yn bwrw'r Sul yng Ngwersyll Glan-llyn yn ddiweddar. Er y tywydd gwlyb roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ac wedi cael hwyl fawr.

Nos Lun, 23 Tachwedd, cafwyd noson Tombola yn yr Urdd gan Miss Lynch a Mrs Evans a phawb yn gwrando'n astud i weld beth oedd y rhif lwcus nesaf.

A gawn ni fel ysgol ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Y Seindorf: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill y wobr gyntaf yn eu hadran yn Rali Blynyddol Bandiau Pres Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llandudno ar 28 Tachwedd. Y canlyniadau oedd : 1, Seindorf Llanrug, 187 o bwyntiau; 2, Seindorf Deiniolen, 186; 3, Seindorf Porthaethwy, 185. Da iawn chi hogia a genod.

Llongyfarchwn hefyd James Jones, Dwyros, ar ennill Tarian Goffa Ben Parry am y perfformiad gorau ar y trombôn yn adrannau 3 a 4.

Dymuna'r Seindorf longyfarch Terry Lloyd Jones, Llys Elen, ar gwblhau 42 mlynedd gyda'r Seindorf. Cafodd y garreg filltir yma ei chydnabod yn ffurfiol yng nghyngerdd y Seindorf a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail, nos lau, 10 Rhagfyr. Cyflwynodd Mrs Jean Hughes, ysgrifennydd Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru, fedal i Terry nid yn unig am ei wasanaeth i Seindorf Llanrug ond am ei ymroddiad i'r Mudiad Bandiau Pres yn gyffredinol.

Nos Lun, 21 Rhagfyr, bydd noson o garolau a mins peis yn cael ei gynnal yn Neuadd y Seindorf am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.

Llwyddiant cerddorol: Llongyfarchiadau i Elen Morgan, Melbourne House, ar basio ei arholiad piano, gradd 5, gyda theilyngdod.

Diolchiadau:

Dymuna Bet a Len, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am y gefnogaeth i wneud y Noson Goffi mor llwyddiannus. Yr elw, hyd yn hyn, yw £270. Diolch i bawb oddi wrth Menter Fachwen.

Llongyfarchiadau calonnog i Ruth Parry Jones, 10 Nant-y-glyn, am ennill gradd B.A. mewn cyfathrebu yng Ngholeg y Normal. Mae'n ferch ifanc urddasol iawn, llawn hiwmor, 'run fath bob amser. Mae'r pentref a'r ddwy ysgol yn siwr o fod yn hynod o faclh o'i llwyddiant. Y flwyddyn nesaf bydd yn mynd i'r Brifysgol ym Mangor i astudio Cymraeg. Da iawn Ruth.

Hoffai Judy a Julie, Rhos y Grug, Ceunant, ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'w arddangosiad a gwerthiant o'u gwaith blodau sych a gwaith cwilsennu. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a chasglwyd £75 tuag at Gronfa Cancr Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr i Elaine a'i chwsmeriaid, yn enwedig Elaine am roi benthyg rhan o'r siop a'i chyfraniad tuag at yr achos. Diolch hefyd i'r hen ffyddloniaid a Nadolig Llawen i bawb.

Menter Fachwen: Daeth pobl atom i'r sêl dod a phrynu a gynhaliwyd yn Hafan Elan, trwy garedigrwydd Mrs Dilys Jones. Daeth cefnogaeth dda ac fe wnaed elw o £270 tuag at Menter Fachwen. Llywydd y noson oedd Mr Dic Jones o'r Fachwen.

Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug, am wneud yr holl drefniadau ac am noson lwyddiannus. Dywedodd Mrs Bet Jones fod yr elw yn mynd i brynu peiriant torri gwair i weithwyr Menter Fachwen. Tynwyd y raffl gan Mr Len Jones, Lyndale.

Mae Mrs Evans, Lloc gynt ond rŵan yng Nghartref Llys Eiddon, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau oll.

Hoffai pawb o drigolion Y Foelas, Llanrug, ddiolch o galon i Siôn Corn am ymweld â hwy yn ddiweddar.

Band Llanrug yn arddangos y gwpan a enillwyd ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru yn ddiweddar. Yn y llun hefyd mae'r darian a gyflwynwyd i Jim Jones fel y trombonydd gorau yn y bencampwriaeth.

Iolo Llywelyn, llywydd y Band, yn cyflwyno medal Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru i Terry Lloyd Jones. Bu Terry yn aelod o'r Band am 40 mlynedd.

MENTER NEWYDD

Dilwyn Lloyd Jones oedd un o gwsmeriaid cyntaf Siop Chips Tegfan a agorodd yn ddiweddar. Dymunwn pob llwyddiant i'r fenter newydd.

CYFARCHION NADOLIG **BETHEL**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

NHBC

★ Gwydro Dwbl a Sengl
★ Gwaith Domestig a Chontract
★ Gwarant 10 mlynedd
★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN

SIOP SGLODION BETHEL

Ffôn: 670760

ORIAU AGOR

Mawrth		5.30 – 9
Mercher		5.30 – 9
Iau	12 – 1.30	5.30 – 9
Gwener	12 – 1.30	5 – 10
Sadwrn	12 – 1.30	5 – 10

CARTREF PRESWYL SANT TEILO

SARON

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

yr holl breswylwyr, Mrs Bilbie a'r staff

Ymholiadau: Port Dinorwig 670353

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

MICHAEL A CHRISTINE

TREFLYN STORES BETHEL

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

CYFLENWYR PORTHIANT

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Port Dinorwig 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

JOHN WILLIAMS
BRYN DAIRY
Tyddyn Difyr, BETHEL
Ffôn: Felinheli 671012

Y BEDOL

FINE TRADITIONAL ALES

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll oddi wrth
Kevin a Carolynne
Ffôn: Port Dinorwig 670155

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid ol oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670261

BWYDYDD, MELYSION A PHAPURAU NEWYDD

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Llongyfarchiadau i Ruth Parry, 11 Tan y Buarth ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Rhagfyr 3ydd.

Diolch: Dymuna John, Elizabeth a'r plant, Blaen Parc, Bethel, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli llys-dad a thaid caredig, sef Mr Edwin Thomas, Bodlondeb, Y Glyn, Caernarfon. Diolch arbennig i'r Matron a staff Cartref Plas Maesincla, Caernarfon, am eu gofal caredig o Nain, sef Mrs M. E. Thomas ac am eu caredigrwydd i'r teulu ar ddydd yr angladd. Bydd y rhoddion ariannol er coffadwriaeth yn cael ei ddosbarthu rhwng cartref Plas Maesincla a Meddygfa Bron Seiont, Caernarfon. Gwerthfawrogir gwasanaeth y Parchg W. R. Williams, Cysegr, yn Eglwys Llanbeblig ar ddydd yr angladd.

Er Cof: Mewn seremoni fechan yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar fe drosglwyddwyd siec am £700 i Uned Gofal y Galon, ar ran y teulu a chyfeillion, gan Mary Griffiths (Tre'r Gof gynt), er cof am ei phriod, Stanley. Diolch i'r Mri Gwilym Jones a'i Fab, Trefnwyr Angladdau, am bob cymorth yn ystod y misoedd diwethaf.

Yr Urdd: Bellach mae'r tymor cyntaf wedi gorffen gyda pharti a disgo i'r holl aelodau. Cafodd pawb gi poeth a diod, a digon o ddawnsio, hwyl a sbort. Diolch i Iorwerth Williams am lywio'r disgo ac i Brian Parry am fenthyg yr offer. Fe fydd gweithgareddau y tymor nesaf yn dechrau ar nos lau, Ionawr 14. Nadolig Llawen i bawb oddi wrth holl aelodau'r Urdd.

Llongyfarchiadau i Seiriol a Beti Owen, Tan y Cae, ar fod yn daid a nain unwaith eto.

Newyddion o'r Ysgol: Oherwydd profedigaeth sydyn Miss L. P. Roberts o golli ei thad fe ohiriwyd y Gwasanaeth Nadolig. Mae'n cydymdeimlad llwyraf â Miss Roberts ar yr adeg trist yma.

Yn ystod y tymor bu'r canlynol ar brofiad gwaith yn yr ysgol: Donna Williams, Llinos Angharad Morris, Siân Hughes a Non Llywelyn. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Roedd prysurdeb mawr yn yr Ysgol diwernod Plant Mewn Angen. Cymrodd Bl. 5 a 6 ran mewn nofio noddedig; gwerthodd Bl. 4 a 5 lond crochan o gawl a'r babanod lond popty o gacenni. Daeth nifer dda o'r plant i'r Ysgol mewn gwisg ffansi. Casglwyd y swm anrhydeddus o £340 i gronfa Plant Mewn Angen.

Erbyn hyn mae'r myfyrwyr Mrs Siriol Roe, Mrs Helen Edwards a Miss Helen W. Jones, wedi dychwelyd i'r Coleg. Diolch iddynt am eu gwasanaeth a dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Ddydd Iau diwethaf cafwyd cinio Nadolig blasus wedi ei baratoi gan Mrs Eiriona Williams a'i staff. Diolch yn fawr iddynt i gyd.

Fore Mawrth a bore Mercher bu'r plant yn gweld y pantomeim yn Theatr Gwynedd. Rwy'n siwr fod pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Dydd Mercher, Rhagfyr 9fed, aeth y prifathro a Miss Helen Jones a phlant Bl. 4 a 5 i Gastell Caernarfon i gael profi bywyd fel ag ydoedd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Roedd myfyrwyr a staff y Coleg Normal yn ail-greu dathliadau'r Nadolig yn y flwyddyn 1321 pan oedd Syr Gruffydd Llwyd yn Siryf Sir Gaernarfon. Cafodd y plant gyfle i weld gwisgoedd y cyfnod yn ogystal ag enghreifftiau o nyddu a chaligraffi. Daeth hanes yn fyw iddynt yn y Castell.

Enillwyr Clwb Cant y mis oedd — £20: Mrs Lily Barlow, 2 Glan Cadnant, Caernarfon; £15: Nina Jones, 10 Trem y Foel, Y Felinheli; £10: Mrs Pat Jones, 15 Tan y Buarth; £5: Timothy Peter Ellis, 4 Cora Lynn; £3: Mrs Joyce Pugh, 9 Tan y Buarth.

Merched y Wawr: Bydd y gangen yn cynnal noson i ddathlu'r Nadolig yng Nghapel Cysegr ar nos Sul, 20 Rhagfyr am 6 o'r gloch. Yr arweinydd fydd Ann Hopcyn a'r organyddes fydd Glenys Griffiths. Cymerir rhan gan aelodau Merched y Wawr a chan barti o blant hynaf yr Ysgol Gynradd. Pris mynediad fydd 50c a bydd yr elw yn mynd tuag at Ymchwil Cancr Ysbyty Gwynedd.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y gangen yn y flwyddyn newydd ar y 13eg o Ionawr yn neuadd yr Ysgol Gynradd am 7.30, pryd y disgwyliwn y Parchg Gordon Owen i ddangos sleidiau o'i daith i Israel. Cystadleuaeth y mis fydd adduned blwyddyn newydd gwreiddiol.

Cantorion Elidir: Cafwyd y rihyrsal cyntaf ar y cyd â Chantorion Bro Dyfnan yng Nghanolfan Pentraeth yn ddiweddar ac fe fwynhawyd y profiad yn fawr iawn.

Yn ystod mis Rhagfyr fe ymwelwyd â dau o gartrefi'r henoed yn yr ardal i ganu carolau, sef Cerrig-yr-afon, Y Felinheli, a Sant Teilo, Bethel ac fe ddiolchir am y croeso twymgalon a gafwyd yno.

Llongyfarchwn ein harweinydd Robin Jones a dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd fel Swyddog Datblygu Antur Padarn (rhan-amser gan mai'r côr yw ei swydd amser llawn!).

Ar ran Cantorion Elidir dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn yr ardal.

Cyfarchion y Nadolig: *Mae preswylwyr Cartref Sant Teilo yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau a chyfeillion.*

Rhai o ddisgyblion blwyddyn 4 a 5 yr Ysgol Gynradd yn blasu'r cawl a baratoesant i godi arian i gronfa apêl Plant Mewn Angen.

PLAID CYMRU — Cangen Bethel
CROESO '93
gyda
GERAINT LOVGREEN
a'r ENW DA
a DISGO
GLAN GWNA, CAEATHRO
Nos Wener, Ionawr 8fed, 1993
Tocyn: £3.50
Mae bws wedi ei threfnu.
Cysylltir â
Nia (670641) neu
Gwenan (671237)

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Yn yr ysbyty: Dymunwn wellhad buan i Mrs Katie Williams, Morawel sydd yn yr ysbyty o'r Foelas, Llanrug.

Gwella: Da deall fod Mr Gwilym Hughes, Oerddwr, yn dal i wella ar ôl ei driniaeth.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Tecwyn, Sue, Peter, Julie
TEX'S MEAT
Caernarfon 673693
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth **Dic Roberts**
BETHEL SCAFFOLDING
BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325
★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
★ Prisiau cystadleuol
★ Ffoniwch i gael estimate yn rhad ac am ddim

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid hen a newydd
CEIR CYMRU
GAREJ MINFFORDD, BETHEL
Ffôn: 670451
Mae Garej Minffordd bellach yn rhan o gwmni garej teuluol sydd wedi ei sefydlu ers deugain mlynedd. Yma mae gennym weithdy trwsio, bae MOT, a gweithdy peintio ac atgyweirio cyrff ceir. Rydym yn cynnig y gwasanaeth gorau am y prisiau isaf posibl ac yn barod i roi pris ar unrhyw waith cyn ei ddechrau! Mae car benthyg i'w gael am ddim bob amser!
Yma, ac yn y Gaerwen, Môn, mae gennym y dewis gorau, a'r rhataf posib, o geir ail-law safonol. Y llynedd gwerthodd ein cwmni dros 1,000 o geir ail-law — record ymysg y goreuon. Llwyddwyd i wneud hynny am elw bychan a thrwy hysbyseb o ganmoliaeth o'r naill i'r llall (nid trwy hysbysebu drud mewn papurau newydd).
Rydym yn llwyddo i fynd o nerth i nerth ac yn eich sicrhau chwi ein cwsmeriaid na fedrwch ein curo am bris na safon.
CEIR CYMRU
CWMNI CYMREIG YN EDRYCH I'R DYFODOL

YSGOL BRYNREFAIL

Yr oedd tîm Ysgol Brynrefail yn fuddugol eto y flwyddyn yma, am y drydydd flwyddyn yn olynol yng nghystadleuaeth Defnyddwyr Ifanc Gwynedd.

Yr oedd y tîm — Mark Jones (Capten), Tudor Jones, Jerome Moran, Michael Moran a Dyfan Siôn, yn cystadlu yn erbyn ysgolion Eifionydd, Porthmadog, a Dyffryn Conwy, Llanrwst.

Bydd y bechgyn yn mynd ymlaen i rownd derfynol Cymru yn Abertawe yn y flwyddyn newydd i gynrychioli Gwynedd.

GORNEST SIARAD CYHOEDDUS

Ar bnawn Iau, Tachwedd 19, cynhaliwyd cystadleuaeth Ymryson Areithio BBC Cymru yn yr Adran Gymraeg yn yr Ysgol. Hon oedd y rownd ar gyfer ysgolion Môn, Arfon, Aberconwy a Dwyfor. Daeth timau iaith gyntaf a chwe ysgol ynghyd i gystadlu. Y pwnc trafod oedd 'Duw Gadwo'r Frenhines'. Fel y gellwch ddychmygu cafwyd areithiau dyrys a digrif.

Yr ysgolion a fu'n cystadlu oedd — Bodedern, Llangefni, Tryfan, Brynrefail, Syr Hugh Owen a Dyffryn Nantlle. Y ddau yn nhîm Ysgol Brynrefail oedd Catrin Thomas a Bryn Jones. Y beirniaid oedd yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas. Canmolodd safon y cystadlu a'r areithiau arbennig a draddodwyd.

Buddugwyr y rownd oedd tîm Ysgol Syr Hugh Owen, sef Elin Gwilym a Siân Arfon. Byddant hwy yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill o'r gwahanol ranbarthau pan gynhelir y rownd derfynol ym Machynlleth yn Senedd-dŷ Owain Glyndŵr ar nos Lun, Tachwedd 30.

CWRS YM MHLAS TANYBWLCH

Ar ddydd Llun, Tachwedd 16, teithiodd deg o ddisgyblion 6^2 sy'n astudio Cymraeg Lefel-A gyda'u hathrawes, Mrs Gwenno Bebb, i Blas Tanybwlch. Yno roedd darlithwyr yr Adran Gymraeg Coleg y Brifysgol Caerdydd yn cynnal cwrs undydd. Bwriad y cwrs oedd ennyn diddordeb myfyrwyr chweched dosbarth sy'n astudio Cymraeg yn y posibilrwydd o ddilyn cwrs gradd yn y pwnc yng Nghaerdydd.

Cafwyd nifer o ddarlithoedd diddorol yn ystod y dydd oedd yn ymwneud â Maes Llafur Lefel-A Cymraeg. Darlithwyd ar farddoniaeth R. Williams-Parry a Gwenallt, y ddrama 'Antigone', Beirdd yr Uchelwyr a Phedair Cainc y Mabinogi.

Dwy olygfa arall o'r Arddangosfa Gelf yn Oriel Eryri.
Gweler y dudalen flaen am y stori'n llawn.



Y stabl ym Methlhem.



Y tri gŵr doeth.

DAU BÔS I'CH GYRRU YN WIRION



Camp i chi wneud croes gyda'r darnau yma!

Torrwch y sgwigl yn ddau ddarn a cheisiwch wneud cylch â nhw!

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ERYRI ORGANIG
LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 676905
Rhwng 5 a 7 yr hwyr
CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG
★ Gwrtaith ★ Bwydydd Hylif ★
★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy ★
Archebion Post 'Garddio law yn llaw â natur'
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ECO'R IFANC

Sgwâr Geiriau Mawr y Nadolig

S	G	W	Y	L	I	A	U	A	B	T	C	D	B
E	E	F	T	O	T	A	N	G	H	H	I	J	U
T	W	R	C	I	A	R	C	E	L	U	N	R	G
I	L	M	D	N	R	O	P	B	R	S	T	R	E
N	U	D	W	D	I	Y	A	A	C	E	G	Y	T
S	H	D	J	B	E	T	H	L	E	H	E	M	L
E	A	Y	B	D	S	W	F	E	S	T	U	W	I
L	A	W	B	C	F	G	I	G	H	I	B	L	A
P	C	L	L	L	Y	W	N	N	A	C	E	M	I
W	O	E	N	R	U	T	L	A	W	D	S	P	D
D	E	H	R	I	L	S	T	U	W	Y	E	A	R
I	D	C	G	A	E	A	F	B	C	L	R	D	H
N	E	U	E	W	F	G	H	I	G	L	P	L	U
N	N	O	I	G	E	H	R	N	A	M	G	G	F
A	A	O	I	N	I	C	I	N	I	O	W	O	E
D	A	D	F	E	N	T	A	I	D	D	I	L	I
O	A	U	F	O	S	M	A	E	R	O	N	A	N
L	M	N	R	I	A	M	I	L	W	R	O	U	I
I	F	U	R	S	O	U	F	T	G	E	N	I	A
G	G	H	A	U	L	L	U	C	A	H	M	S	I
H	C	S	A	T	W	R	N	A	L	I	A	L	D

serddewinwyr
Christingle
Adfent
Mair
preseb
Bethlehem
twrci
anrhegion
cannwyll
tinsel
stabl
plu
Yule
gwin
bugeiliaid
Rhufeiniaid
milwr
Herod
ucheiwydd
aeron
cinio
pwdin
Nadolig
eira
gaeaf
tlawd
aur
golau
mul
gwair
geni
coeden
thys
myrr
angel
gwyliau
Luc
haul
tan



1 Roedd Mair a Joseph yn byw yma
2 Roedd Joseff o deulu hwn
3 Yma ganwyd eu baban
4 Teithiodd y ddau i'r dref hon i'w trethu
5 Rhoddwyd y baban i orwedd yma
6 Disgleiriodd hon yn yr awyr

Gwnewch luniau o'r anrhegion yr hoffech eu cael ar y goeden a gadwch y dudalen hon mewn lle AMLWG o gwmpas y tŷ!



BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Miss Lowri Prys Roberts a'r teulu o glywed am farwolaeth ei thad, Mr Elfed Roberts, Godre'r Coed. Dymunwn bob bendith i'r teulu yn eu hiraeth a'u colled.

Y golygyddion

Priodas Rhuddem: Llongyfarchiadau i Richard Wyn a Gwyneth Evans, Ty'n Buarth ar ddathlu eu priodas rhuddem ar Dachwedd 5ed. Dymuna'r ddau ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a blodau hardd dderbyniasant ar yr achlysur. Diolch o galon i bawb.

Cydymdeimlad: Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Dorothy Wager, Y Llythyrdy, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Elsie Robinson, Stalybridge, Swydd Caer, ar Dachwedd 29ain. Hefyd estynnwn gydymdeimlad â Mrs Kathy Rothwell, Llwyn Helyg, yn ei phrofedigaeth hithau o golli ei mam, y ddiweddar Mrs Marjorie Sergeant.

Sefydliad y Merched: Llongyfarchiadau i'r gangen leol am ennill y gwpan mewn cystadleuaeth crefftau Nadolig i aelodau Sefydliad y Merched Gwynedd. Cyflwynwyd y gwpan mewn arddangosfa o'r crefftwaith a gynhaliwyd ym Methesda yn ddiweddar. Cynhyrchwyd yr holl waith dan hyfforddiant Anita Long, Tan yr Onnen.

Aelodau o gangen Sedfydliad y Merched Brynrefail yn arddangos crefftiau Nadolig.

Anita Long (hyfforddwraig) ynghyd â Dwynwen Williams a Mrs Betty Owen (Ysgrifenyddes Sefydliad y Merched) yn derbyn y gwpan.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**

NGORSAF BETROL

BERAN

DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau

Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd

Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Eisteddfod Bentref: A'i dyma'r orau eto? Dyna oedd pawb yn ei ofyn ar y ffordd allan o'r Ganolfan ar nos Fawrth, Rhagfyr 1af, wedi Eisteddfod fythgofiadwy. Hon oedd y chweched blwyddyn yn olynol i'r Eisteddfod gael ei chynnal yn y pentref. Serch y tywydd garw y tu allan roedd y Ganolfan dan ei sang ac fe ddiolchwn i bawb a fentrodd allan ar y fath dywydd nid yn unig o Ddinorwig ond o Ddeiniolen a llawer pentref arall. Mae'r gefnogaeth bob blwyddyn yn arbennig o dda ac ni chafodd neb ei siomi gyda'r wledd o ganu ac adrodd a gafwyd. Os nad oeddech chwi yno fe gawsoch golled.

Wel, beth am yr uchafbwyntiau. Nid oes modd anghofio cyfraniad Mr Tomi Arfon Parry. Dyma feirniad gwreiddiol os bu un erioed — sôn am lond bol o chwerthin. Yna canmoliaeth uchel John Ogwen, y beirniad llên, o waith Miss Ellen Wyn Jones, Mrs Alice Griffith a Mrs Megan Morris yn y gystadleuaeth Dyddiadur Wythnos, 'Ciosg' neu 'Cysgodfan bws'. Awgrym pendant y beirniad oedd y dylid cyhoeddi cynnyrch y dair mewn rhifyn o'r Eco. Beth amdani? Pleser o'r mwyaf hefyd oedd gwrando ar y feirniadaeth ar y gystadleuaeth gorffen limgrig, llinell goll a chreu brawddeg.

Gallem restru nifer o uchafbwyntiau eraill gan mor lwyddiannus a chofiadwy oedd y noson. Diolch i bawb am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth. Mae'r canlyniadau wedi eu rhestru mewn man arall yn y rhifyn hwn o'r Eco.

Gwasanaeth Nadolig Undebol: Eleni cynhelir y gwasanaeth ar brynhawn dydd Sul, Rhagfyr 20fed am 4.30 yn Eglwys St. Mair. Mae croeso cynnes i bawb ddod i'r gwasanaeth ac fe fydd y casgliad yn mynd tuag at rai sydd yn ddigartref. Thema'r gwasanaeth fydd 'dim lle yn y llety'. Fel y llynedd edrychir ymlaen at wasanaeth bendithiol iawn.

Eglwys St. Mair: Dyma drefn y gwasanaethau hyd ddiwedd mis Rhagfyr — 20fed: Gwasanaeth Undebol am 4.30. Bore Nadolig: Cymun Bendigaid, gyda'r Parchg Ganon R. Glyndwr Williams, am 9.30. Rhagfyr 27: Dim gwasanaeth — ymuno mewn gwasanaeth o Naw Llith a Charol yn Eglwys Crist Llandinorwig am 5 o'r gloch.

Fel y gŵyr yr aelodau bydd y cyfrifon ariannol yn cael eu cau am eleni ar ddiwedd y mis. Diolch ymlaen llaw i bawb am eu haelioni.

Cyngor Eglwysi Dinorwig: Mae'n dda gallu adrodd bod Capel Sardis ac Eglwys St. Mair wedi penderfynu pwy sydd i'w cynrychioli ar y Cyngor. Dau gynrychiolydd Capel Sardis yw Miss Ellen Wyn Jones a Miss Morfudd Hughes Jones, tra bod Mr Glyn Tomos a Mrs Gwyneth Jones yn cynrychioli Eglwys St. Mair. Wedi dweud hynny, o safbwynt Capel Dinorwig nid yw'r aelodau wedi cytuno i gynnig enw dau berson i'w cynrychioly hwy ar y Cyngor. Cynhelir cyfarfod cyntaf o'r Cyngor yn gynnar yn y flwyddyn a braf o beth fyddai gweld aelodau Capel Dinorwig yn ail-ystyried ac yn gallu anfon dau gynrychiolydd i'r cyfarfod hwnnw.

Cymdeithas Undebol: Yn ystod mis Ionawr dyma fydd rhaglen y Gymdeithas, sef Cyfarfod Gweddi yng ngofal chwiorydd Capel Dinorwig, ar nos lau, 7 Ionawr. Yna ar 21 Ionawr cynhelir Noson Lawen gyda Chwmni Llanberis.

Apêl 'Blue Peter': Casglwyd cyfanswm o £90 tuag at yr apêl fel canlyniad i fore 'Prynu a Gwerthu' a gynhaliwyd yn y Ganolfan leol ar fore Sadwrn, 5 Rhagfyr. Hoffai'r trefnwyr ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth i'r apêl yma. Diolch i aelodau Gwerin y Coed am drefnu'r cyfan.

Cyfarchion yr Ŵyl: A ninnau ar drothwy'r Nadolig — Cyfarchion yr Ŵyl i bob un ohonoch a Blwyddyn Newydd Dda.

Na, does dim sail i'r si fod rhyfel enwadol ar fin dechrau yn Llanrug, er gwaetha'r ffaith i'r Rheithor lleol gal dwy lond llwy o *halen* yn ei baned yn ystod cinio pensiynwyr yno'n ddiweddar! Taflwyd amheuon ar rai o'r capelwyr nes darganfod mai *eglwyswraig amlwg* oedd yn gyfrifol, ac iddi osod llond dysgl o halen yn ile siwgr ar fwrdd y prif westeion!

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

CROESAIR IONAWR



AR DRAWS

1. Plismon (8)
2. Cymru (6)
9. Ymddengys felly dro ar ôl tro (5,3)
10. Morus __ a fu'n canu (6)
11. Chwythu'n dyner a wna'n nhymor yr eira (9,5)
14. Dydd ar ôl dydd (5)
16. Rhoi dau ben llinyn yn ddiogel (6,3)
17. Anffodus heb fod yn fudr (5,4)
19. Grwndi'r anifail (2,3)
21. Di-reswm serch y rhesymeg (3,2,8)
24. O dan y fraich (6)
25. Dymuniad pob potsiar hwyrach (5,3)
26. Digonedd o faint (6)
27. Cylchgrawn Ysgolion Sul angharedig (5,3)

I LAWR

1. Toriad anghyflawn (4)
2. Tipyn o boen i ddedwyddwch (7)
3. Y dŵr a geir o rew (3,2)
4. Cricedwr a dery'r bêl yn bell (6,5)
6. Llimanwr Bryn Coch (4,5)
7. Y bocs gwneud sŵn yn y gwddf (7)
8. Awdures emynau enwog (3,7)
12. Cyrchu nwyddau cyn y Nadolig (3,8)
13. Sied ffodus (5,5)
15. 78, 45 neu 33 tro y funud (9)
18. Blodeuyn y dŵr i Samiwel neu Samson (4,3)
20. Mawrth Ynyd am hon (7)
22. Daeth Crist o'r nef __ __ pobl y byd (1,4)
23. Gweithdy'r Barnwr (1,3)

ATEBION CROESAIR MIS RHAGFYR

Serch yr amser prin i gwblhau'r croesair y tro hwn daeth tipyn o sachaid o ymgeision i gadw'r postman yn brysur eto. Do, bu raid iddo ymlwybro trwy'r gwynt a'r glaw a'r eira hefyd ac ef a gludodd ymgais yr enillydd, sef un **Nansi Davies, Y Dreflan, 17 Maes Meugan, Rhuthun, Clwyd.** Anfonir y wobr i Glwyd gyda hyn a diolch i'r degau, a'r cannoedd yn wir sydd wedi cefnogi'r croesair yn ystod 1992. Nadolig Llawen iawn i chwi bôseirwyr i gyd a daliwch ati i lenwi'r sgwariau'n ystod 1993.

RHODDION

£5: Mary Griffith, Tre Gof (gynt), Bethel; Mr a Mrs Jacob James, Regent House, Deiniolen; Mr a Mrs R. W. Evans, Ty'n Buarth, Brynrefail; Arfonia Evans, Derlwyn, Llanberis; William Jones, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Dorothy May, Caernarfon, er cof am Mr a Mrs W. J. Jones, Clwt y Bont.

£3: Anne Williams, 1 Tai California, Clwt y Bont.

£2: Bet a Len, Lyndale, Llanrug; Mari Wyn, 6 Rhes Fictoria, Llanberis; Elizabeth a John Evans, Bethel.

Dyddiadur y Mis

IONAWR 1993

5 Mawrth. Llanberis: Cyfarfod y Plant yn ail-ddechrau yn y Capel Coch.

7 Iau. Dinorwig: Cyfarfod Gweddi Undebol o dan ofal y chwiorydd.

8 Gwener. Bethel: Plaid Cymru. Disgo yng Nglan Gwna (Geraint Lovgreen a'r Enw Da).

10 Sul. Deiniolen: Cyfarfodydd Gweddi ar ddechrau blwyddyn.

11 Llun. Waunfawr: Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs a sleidiau gan D. Thomas, Warden Ynys Enlli.

12 Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr. Sgwrs gan Iwan Roberts.

13 Mercher. Bethel: Merched y Wawr yn Neuadd yr Ysgol am 7.30. Sleidiau o Israel gan y Parchg Gordon Owen. **Llanrug:** Plaid Cymru. Sgwrs a sleidiau gan Mary V. Jones.

18 Llun. Deiniolen: Merched y Wawr. Angharad Williams — 'Fy Nhaith i Rwmania'.

21 Iau. Dinorwig: Noson Lawen — Parti Llanberis.

25 Llun. Deiniolen: Y Gymdeithas Lenyddol — Dafydd Orwig — Sgwrs a sleidiau.

28 Iau. Waunfawr: Merched y Wawr — Bleddyn a Ceri Williams — 'Ein Taith o Gwmpas y Byd'.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym musnes llefrith

EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: Llanberis 870563

Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Cacennau Nadolig a Bara Brith Traddodiadol

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

Y Bistro
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 871278

Discownt o 10% i bartion ym mis Ionawr.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Danny** a **Nerys Roberts** a'r staff

CHWARAEON

ANRHEG I'R ARDAL?

Ardal bêl-droed gref fu bro Eco'r Wyddfa ers blynyddoedd, ond tybed a fu erioed gymaint o dimau yma ag ar hyn o bryd. Ceir timau dan 12, dan 14, dan 16 a thimau oedolion yn Neiniolen, Llanrug, Llanberis a Bethel, yn ogystal â thimau yn yr ysgolion. Mae o reidrwydd felly ormod o lawer o ddefnydd o feysydd y clybiau. Ni all unrhyw glwb ddelio â'r fath draul ar y meysydd heb offer pwrpasol a thirmon llawn amser. O ganlyniad mae cyflwr y maes yn aml yn penderfynu pa fath o gêm a geir, a ran amlaf mater yw hi o gicio'r bêl yn bell a rhedeg ar ei hôl. Sut gellir datrys problem ddyrys cyflwr y meysydd?

Y tymor nesaf bydd gan Ddeiniolen ei faes ei hun. Ond am ba hyd y gellir cynnal hwnnw, a meysydd y clybiau eraill mewn cyflwr da, gyda chymaint o ddefnydd arnynt? Ni ellir llogi Ysgol Brynrefail am byth. Nid yw gor ddefnydd o hwnnw'n deg â'r disgyblion, heb sôn am y gost ariannol sydd yn wynebu'r clybiau o'i logi. Dyma fi'n cynnig y syniad hwn er mwyn cychwyn trafodaeth ar y mater pwysig yma. Awgrymaf bod clybiau Llanrug a Llanberis yn gwneud cytundeb â'i gilydd ynglŷn â'r defnydd o'u meysydd. Gallai tîm cyntaf Llanrug a Llanberis chwarae eu gemau cartref ar faes Llanrug, tra bo ail dîm y ddau glwb yn chwarae ar faes Ffordd Padarn yn Llanberis. Ond beth am y timau ieuenctid? Ai gofyn gormod fyddai i holl dimau'r fro ymuno â'i gilydd i ddwyn perswad ar yr awdurdodau perthnasol i osod maes bob tywydd ac aml bwrpas — tebyg i'r un sydd ym Methesda — ar dir Ysgol Brynrefail? (Tybed na allai hyn fod yn sialens fawr i Antur Padarn?) Byddai gemau ieuenctid ar faes o'r fath yn hybu a meithrin sgiliau. A byddai ymarfer ar faes felly yn fwy buddiol na gêm 5-bob-ochr mewn neuadd ysgol fechan i'r prif dimau hefyd. Breuddwyd ffŵl ynteu hedyn gobaith ydi'r awgrymiadau hyn?

AR RAS ER LLES YR HOGIA

Val Griffiths yn cyflwyno'r siec i Robin Owen (tîm dan 12) a Brian Griffiths (tîm dan 14).

Tymor y rhoi yw'r Nadolig. A dyma roi sylw'r mis hwn i rai sy'n rhoi yn hael i noddi chwaraeon yn y fro. Clywn bob dydd am y dirwasgiad, ond gallwn ddiolch mewn rhyfeddod bod cynifer o gwmnïau a busnesau lleol yn barod i noddi byd y campau yn y fro yma. A chalondid mawr yw bod canran uchel o'r nawdd hwn er budd timau ieuenctid y fro. Mae eraill yn cynnal y campau trwy egni ac oriau o lafur di-dâl, a dylem fel ardal ymffrostio yn eu hymroddiad.

Cafwyd enghraifft dda o'r nawdd hwn ym Methel yn ddiweddar. Mae yno dimau pêl-droed dan 12 oed a than 14 oed eleni, yn ogystal â charfan dan 10 oed. Mae cynnal y cyfan yn golygu cryn gost ariannol. Gan sylweddoli hynny, penderfynodd Vera Griffith, gwraig ysgrifennydd y clwb, y byddai'n ceisio helpu. Mae Vera wedi ymddiddori mewn rhedeg traws-gwlad ers cryn amser, ac fe'i gwelir ym mhob tywydd yn rhedeg ar hyd lonydd Llanddeiniolen. Aeth Vera ati i gystadlu ym Marathon Eryri eleni, a chael ei noddi er mwyn codi arian er budd y clwb pêl-droed. O gofio bod hon yn Farathon hynod o galed sydd fel arfer yn cael tywydd garw roedd hon yn sialens fawr. Ond cwblhaodd Vera'r ras a llwyddodd i godi dros £200 er budd y clwb pêl-droed. Campus!

Mae'n ymddangos bod y gwaith caled oddi ar y cae yn cael ei adlewyrchu ym mherfformiad y tîm dan 12 oed. Wedi ennill gemau yn erbyn Llangristiolus, a Llanrug mewn gêm ardderchog, bydd y tîm yn wynebu Llanrwst gartef yn nhrydedd rownd Cwpan Gogledd Cymru. Cynhelir y gêm honno am 10.30 fore Sadwrn, Ionawr 2il. Gobeithio bydd hyn yn ddechrau da i 1993. Beth am ddod draw i gefnogi'r hogia — gallaf eich sicrhau eu bod yn dîm da.

Mae cryn edrych ymlaen at fis Ionawr ym Methel. Fis Ionawr d'wytha cafwyd trip i chwarae yn erbyn timau ieuenctid Dinas Manceinion. Y tro hwn bydd y bechgyn yn mynd i Lerpwl i chwarae yn erbyn tîm un o ysgolion y ddinas honno yn y bore, a gwylio'r gêm rhwng Everton a Norwich yn y pnawn. Nid yw rheolwr y tîm — Dafydd Jones — yn barod i ddatgelu a fydd yn mentro i Barc Goodison. Ag yntau'n Kopite tanbaid mae'n bosib y bydd rhaid benthyca sbectol dywyll a mwstias y diwrnod hwnnw!

CYRRAEDD Y BRIG

Tipyn o siom yw'r ail wobr fel arfer. Ond weithiau mae'r siom yn troi'n benderfyniad i frwydro ymlaen. Dyna fu profiad pedair merch ieuainc o Ysgol Gynradd Llanrug yn ddiweddar. Cafodd tîm ras gyfnewid yr Ysgol yr ail wobr ym Mhencampwriaeth Cenedlaethol Nofio yr Urdd ym Mangor y llynedd. Ond eleni, draw ym Mhontardawe, cipiodd y tîm y fedal aur. Y bedair nofwraig oedd **Nicola Jones, Siân Green, Ceri Jones ac Elin Dafydd.** Ac mae'n dda cofio y bydd tair o'r tîm, sef Nicola, Siân ac Elin, yn cystadlu yn yr un oedran y flwyddyn nesaf eto. Rwy'n siwr bod y llwyddiant ym Mhontardawe wedi gwneud yr holl oriau o ymarfer yn werth chweil i'r genod. Buont yn ymarfer yn gyson ddwywaith yr wythnos tra roedd y mwyafrif ohonom yn dal i gysgu'n drwm!

Wrth estyn ein llongyfarchion i'r pedair, cyhoeddwn mai hwy yw enillwyr Tlws yr Eco am fis Rhagfyr.

DILYN Y BRAWD



John Grisdale yn cyflwyno y Tlws am fis Tachwedd i Caitlin Wroe.

FFARWELIO Â'R CWPAN IAU

John, Noel ac Euryn yn pendroni — braf fuasai troi GLO yn GÔL!

Cafwyd enghraifft arall o'r noddi hael yn Neiniolen. Diolch i H. E. Hughes a'i Feibion mae rheolwr, eilydd a dyn cymorth cyntaf tîm Deiniolen bellach yn gynnes braf mewn cotiau crand at eu fferau! Mae golwg hynod Eidalaidd arnynt ar ochr y cae. Ond yn anffodus nid oedd fawr o 'newyddion da' i'r 'tri dyn doeth' yn y gêm yn erbyn Llanystumdwy yn ddiweddar. Yn y gêm honno yng Nghwpan lau y Gogledd methodd y tîm â manteisio ar sawl cyfle i sgorio yn yr hanner cyntaf, a siom fawr fu'r ail hanner. Gyda llaw, clywyd un hen wag a deimlai nad oedd y dyfarnwr yn deg â Llanbabs yn gweiddi, 'paid a phoeni reff, dydi Lloyd George ddim yn chwarae heddiw.' Yn anffodus nid oedd "dewin" yn nhîm Deiniolen y diwrnod hwnnw. Ond gobeithio bydd y siom o orfod ffarwelio â'r Cwpan lau am dymor arall yn symbyliad i'r tîm i gipio Pencampwriaeth Sain. Pob hwyl i'r tîm weddill y tymor.

Elin, Siân, Ceri a Nicola gyda Thlws yr Urdd a Thlws yr Eco am fis Rhagfyr.